

# Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen

Parc Bryngarw

Adroddiad Dichonoldeb



## **Ymwrthodiadau:**

Eiddo perchnogol ac unigryw'r awdur, y corff comisiynu, eu hasiantau ac enwebeion, neu fel y nodir fel arall, yw'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y ddogfen hon. Ni cheir atgynhyrchu, storio, trosglwyddo, neu ddefnyddio unrhyw ran o'r ddogfen hon, yn ei chyfanrwydd neu'n rhannol, heb ganiatâd ysgrifenedig gan Yellow Wales neu Gwmnïau Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw.

Gellir newid yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y ddogfen hon heb rybudd. Mae Cwmnïau Cymdeithasol Cymru Cyfyngedig yn ymwrthod i'r graddau a ganiateir o dan y gyfraith yr holl atebolrwydd am yr holl hawliadau, colledion, treuliau, iawndal a chostau y gallai'r defnyddiwr fynd iddynt o ganlyniad i ddefnyddio'r wybodaeth yn y ddogfen hon neu gyfathrebiad cysylltiedig, neu'n gysylltiedig â'r defnydd ohoni, am unrhyw reswm o gwbl.

Bydd llwyddiant unrhyw Gwmni/Menter Gymdeithasol yn sicr oherwydd rheolaeth, gallu ac ymrwymiad y Cwmni. Amcanestyniadau yw'r holl ffigurau sydd wedi eu cynnwys yn yr Astudiaeth hon ac maent at ddibenion enghreifftiol yn unig. Nid yw Cwmnïau Cymdeithasol Cymru yn rhoi unrhyw sicrwydd na gwarantiaid o ran incwm, gwerthiannau, costau neu elw posibl.

## **Gwybodaeth Preifatrwydd a Chyfrinachedd:**

Efallai y bydd y ddogfen hon yn cynnwys gwybodaeth o natur sensitif. Ni ddylid rhoi'r wybodaeth hon i unigolion ac eithrio'r rheini sy'n ymwneud â datblygiad y prosiect neu a fydd yn ymwneud ag ef yn ystod ei oes.

Cynnwys	
1 Crynodeb	2
1.1 Diben	2
1.2 Dull	2
1.3 Cwmpas a Chyfyngiadau'r Astudiaeth	3
1.4 Casgliadau Allweddol	4
1.5 Opsiynau Manwerthu	5
2 Astudiaeth Ddichonoldeb	7
2.1 Cefndir	7
2.2 Ymgynghoriadau	14
2.3 Cynhyrchion a Gwasanaethau	24
2.4 Gwasanaeth a Gweithle	26
2.5 Dadansoddi'r Farchnad	27
2.6 Brandio	36
2.7 Dadansoddi a Rheoli Risg	38
3 Opsiynau Manwerthu	42
3.1 Hunaniaeth Annibynnol	42
3.2 Masnachfrait	42
3.3 Llogi	42
3.4 Modelau Eraill	42
3.5 Opsiynau Manwerthu	43
4 Asesiadau Effaith	47
4.1 Traffig	47
4.2 Dadleoli	47
4.3 Staff a Hyfforddeion yn y Gweithle	47
4.4 Gwirfoddolwyr	48
4.5 Ymwelwyr	48
4.6 Rhanddeiliaid Eraill	48
5 Cynllun Cyflawni	50
5.1 Ffrydiau Gwaith	50
6 Canfyddiadau ac Argymhellion	53
6.1 Crynodeb o Ganfyddiadau	53
6.2 Argymhellion	54

# 1 Crynodeb

## 1.1 Diben

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen mewn partneriaeth â Reach, rhaglen Datblygu Gwledig Pen-y-bont ar Ogwr, a'i nod yw ceisio archwilio'r potensial ar gyfer datblygu cynnig manwerthu ym Mharc Bryngarw sy'n cefnogi cynhyrchwyr lleol ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, profiad gwaith a hyfforddiant i bobl leol.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar y rhagolygon masnachol a sut mae'r rhain yn ymwneud â neges allweddol Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, sef "*gwella bywydau pobl*" trwy ddiwylliant a thrwy wella llesiant pobl.

Nodau allweddol yr adroddiad yw:

- archwilio dichonoldeb cynnig manwerthu ym Mharc Bryngarw
- cynnig amlinellad o'r opsiynau posibl sydd ar gael
- asesu effeithiau tebygol cynnig o'r fath
- datblygu cynllun cyflawni i ddangos sut y gallai unrhyw un opsiwn gael ei wireddu

## 1.2 Dull

Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd i asesu a dadansoddi Parc Bryngarw yn cynnwys ymweliadau safle, cyfarfodydd monitro, adolygu dogfennau a ddarparwyd gan gynnwys gwybodaeth ariannol, polisiau, rhwydweithiau a gweithgareddau. Cynhaliwyd ymgynghoriad ymwelwyr ar y safle yn ogystal â gwaith ymchwil a wnaed gan ddefnyddio'r rhyngwyd a'r ffôn.

Mae dull Cwmnïau Cymdeithasol Cymru yn amlinellu ein hymagwedd at arddull gweithio cydategol sy'n ymatebol ac yn hyblyg yng nghyd-destun y briff a roddwyd. Mae'n seiliedig ar ein profiad a'n gwybodaeth a gafwyd trwy ddadansoddi, gwerthuso a hyfforddiant pwrpasol blaenorol ym maes cymdeithasol a chorfforaethol a llwyddiant yn yr arbenigedd hwn.

Ein nod cyntaf oedd nodi'r cyfleoedd a chychwyn y broses o'u cwmpasu a'u hasesu. Mae hyn yn arwain at ddatblygu'r astudiaeth ddichonoldeb gan roi manylion yr holl opsiynau posibl.

Bydd yr holl waith sy'n ymwneud â'r comisiwn hwn yn cael ei wneud gan ddefnyddio 6 ffynhonnell gydategol:

1. Deialog parhaus rhwng arweinydd y comisiwn a'r prif gyswllt yn Cwmnïau Cymdeithasol Cymru
2. Defnydd o wybodaeth ac arbenigedd o ran datblygu a sefydlu Cwmnïau Cymdeithasol, mentrau cymdeithasol a busnesau cymdeithasol cyfrifol a rhoi gwasanaethau cyhoeddus ar gontractau allanol i gwmnïau masnachu awdurdodau lleol neu endid annibynnol.
3. Cyfweliadau wyneb yn wyneb a chyfarfodydd â rhanddeiliaid dethol fel y bo'n briodol
4. Gwaith ymchwil ben desg trwy gyfweliadau ffôn â rhanddeiliaid dethol fel y bo'n briodol
5. Gwaith ymchwil pen desg gan ddefnyddio cyfleuster rhyngwyd
6. Bydd Cwmnïau Cymdeithasol Cymru yn defnyddio meysydd arbenigedd penodol aelodau timau arbenigol, a'r canlynol yn bennaf:
  - a. Dealltwriaeth a phrofiad gweithio ymarferol o arferion amgylcheddau'r awdurdod lleol
  - b. Dealltwriaeth a phrofiad gweithio ymarferol o amgylcheddau mentrau cymdeithasol

- c. Dealltwriaeth a phrofiad gweithio ymarferol o sefydliad a thwf mentrau cymdeithasol
- ch. Dealltwriaeth a phrofiad gweithio ymarferol o ffurfio partneriaethau proffesiynol a threfniadau consortiwm, a'u hagweddau ymarferol a'u swyddogaethau
- d. Dealltwriaeth a phrofiad gweithio ymarferol o drosglwyddo busnesau/gwasanaethau dydd awdurdod lleol i berchnogaeth newydd/annibyniaeth (allanoli)
- dd. Dealltwriaeth a phrofiad gweithio ymarferol o broblemau ac atebion yn ymwneud â Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE), pensiynau, materion adnoddau dynol, trosglwyddo asedau, contractau presennol a datblygu contractau newydd ac agweddau cyfreithiol yn gysylltiedig â phob ymgymeriad
- e. Dealltwriaeth a phrofiad gweithio ymarferol o'r gofyniad o ran modelu busnes i greu gweithrediad menter gymdeithasol sy'n gynaliadwy yn ariannol
- f. Dealltwriaeth a phrofiad gweithio ymarferol o fodelu ariannol i greu gweithrediad menter gymdeithasol sy'n gynaliadwy yn ariannol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus
- ff. Dealltwriaeth a phrofiad gweithio ymarferol o'r angen i awdurdodau lleol wneud pethau mewn ffordd wahanol sy'n arwain at ddarparu gwasanaethau mewn ffordd effeithiol ac effeithlon sy'n addas ar gyfer y dyfodol
- g. Dealltwriaeth a phrofiad gweithio ymarferol o bwysigrwydd sicrhau bod modelau llywodraethu cadarn yn cael eu sefydlu, gan sicrhau bod pob amcan cymdeithasol a masnachol yn cael ei fodloni

### 1.3 Cwmpas a Chyfyngiadau'r Astudiaeth

Mae'r adroddiad yn astudio Parc Bryngarw a'i dir a'r potensial ar gyfer cyfleoedd manwerthu ar y safle. Mae'n ystyried Bryngarw yng nghyd-destun ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol a sut y mae newidiadau diweddar yn ysgogi'r uchelgais o fod yn lle gwaith a hamdden sy'n ffynnu, yn fasnachol ac â phwyslais cymdeithasol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad yn y Parc dros 2 ddiwrnod ar wahân i ganfasio barn a safbwyntiau'r cyhoedd ar ddatblygu cynnig manwerthu. Roedd yr ymateb yn arbennig o gadarnhaol, gyda 94.4% o blaid cynnig manwerthu yn y Parc.

Yn ystod yr adroddiad hwn, mae Awen wedi bod yn rhagweithiol o ran archwilio opsiynau a bwrw ymlaen â nhw. Mae hyn yn golygu y gallai rhai o'r opsiynau a gyflwynir yma fod yn cael eu datblygu eisoes neu wrthi'n cael eu rhoi ar waith. Mae hyn yn cynnwys ymchwiliadau i'r posibilrwydd ar gyfer manwerthu yn y Ganolfan Ymwelwyr, datblygu siop yn B-Leaf, ymchwilio i ddatblygu cyfleuster o fath ciosg yn y man chwarae, ac archwilio datblygiad cynhyrchion yn B-Leaf ac yn Wood-B. Mae unrhyw weithgaredd a oedd yn hysbys ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn wedi ei gynnwys oddi mewn, ond derbyniwyd gennym na fu'n bosibl cofnodi'r holl weithgarwch cyfredol yma.

Oherwydd natur yr opsiynau a gyflwynir a'r agweddau newidiol niferus ar gyfer pob un, ni fu'n bosibl cyfrifo rhagolygon busnes ac amcanestyniadau ariannol ar gyfer yr adroddiad hwn.

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn sefydliad blaengar sy'n awyddus i ddatblygu Parc Bryngarw ac ysgogi ei dwf fel cyrchfan allweddol yn y rhanbarth. Hefyd, mae Awen yn rheoli dau brosiect hyfforddiant seiliedig ar waith i bobl ag anableddau dysgu; B-Leaf, canolfan arddwriaethol wedi ei lleoli ar dir y Parc, a Wood-B, gweithdy gwaith coed wedi ei leoli filltir i ffwrdd ym Mharc Menter Tondu.

#### 1.4 Casgliadau Allweddol

Rydym wedi bod yn ystyriol wrth ddod i'n casgliadau allweddol o'r ffaith fod Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn gweithredu nifer o gyfleusterau hamdden lleol eraill ac yn meddu ar strwythur rheoli cymwys i gyflawni'r hyn a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Mae llawer o'r opsiynau a roddir yn rhan o strategaeth ddatblygu ehangach ar gyfer Parc Bryngarw ac yn cael eu gweithredu eisoes. O ystyried ymgyrch Awen i gynyddu gweithgarwch masnachol yn y Parc, rydym yn cydnabod efallai y cynlluniwyd ar gyfer llawer o'r syniadau a gyflwynir yma, neu eu bod eisoes yn cael eu rhoi ar waith.

Mae nifer o opsiynau manwerthu ar gael i Barc Bryngarw. Rydym yn teimlo bod gan yr holl opsiynau a gyflwynir yma y potensial i ychwanegu at apêl y Parc ac yn cefnogi ei amcanion cymdeithasol a masnachol. Yn gyffredinol, disgwylir i'r effaith fod yn gadarnhaol gydag ychydig neu ddim dadleoli yn digwydd ymhlith busnesau a chynhyrchwyr lleol.

Rydym wedi nodi dwy her allweddol i'r Parc ac i Awen yn seiliedig ar fynediad ffordd at y safle a'r newidiadau diwylliannol parhaus i staff a hyfforddeion. Cymerwyd camau eisoes tuag at fynd i'r afael â'r newidiadau sy'n digwydd a bydd hyn yn parhau wrth i'r Parc barhau i esblygu. Fodd bynnag, efallai y bydd angen ystyried materion traffig ffordd yn fwy gan y bydd mynediad, arwyddion a tharfu lleol yn parhau i effeithio ar y Parc a'r gymuned gyfagos.

Mae'r ystyriaethau eraill yn cynnwys asesu'r sgiliau manwerthu sy'n bodloni'n fewnol. Cynhaliwyd dadansoddiad a gweithdy sgiliau ar gyfer yr adroddiad hwn a dangosodd feysydd o gryfder a gwendid, a chydabuwyd y byddai cryfhau gwerthiant a marchnata manwerthu yn gyffredinol o fudd i'r Parc ac i Awen.

Mae'r casgliadau allweddol ar gyfer y cynnig manwerthu ym Mharc Bryngarw fel a ganlyn:

1 Ceir cwmpas sylweddol i gyflwyno un neu fwy o gynigion manwerthu. Mae rhai o'r opsiynau a gyflwynir naill ai'n cael eu mabwysiadu eisoes, neu wrthi'n cael eu cynllunio.

2 Mae'r tueddiad at gynnig manwerthu ymhlith rhanddeiliaid yn arbennig o gadarnhaol. Roedd y rheini a ganfasiwyd yn cynrychioli ymwelwyr, cynhyrchwyr, busnesau lleol, a staff, ac ni chafwyd unrhyw ymatebion negyddol.

3 Mae effaith cynnig manwerthu ar fusnesau a chynhyrchwyr lleol yn gadarnhaol iawn. Ni fynegwyd unrhyw sylwadau negyddol gan unrhyw un a ganfasiwyd ac roedd y mwyafrif yn hapus i gyflenwi cynhyrchion a nwyddau i'w gwerthu yn y Parc. Dim ond rhai wnaeth ddangos dim diddordeb mewn cyflenwi'r Parc y tu allan i'w sianelau manwerthu presennol.

4 Ceir newid diwylliannol parhaus y bydd angen parhau i'w reoli. Mynegodd rhai o'r gweithlu bryder am gyflymder y newid a sut y gallai hyn effeithio arny'n nhw a hyfforddeion.

5 Mae'r rhwydwaith ffyrdd cyfagos yn cyflwyno rhai heriau i'r Parc. Gall mynediad fod yn rhwystrol, gyda ffyrdd cul a phontydd yn arwain at anawsterau i goetsys mawr a llifoedd traffig trwm. Hefyd, mae'r arwyddion ffyrdd o'r draffordd a'r rhwydwaith ffyrdd cyfagos yn annigonol ac mae rhai ymwelwyr yn mynd ar-lein i ddod o hyd i'r Parc. Mae'r rhain yn broblemau hirhoedlog ac yn destun trafodaethau sy'n parhau rhwng Awen a'r adrannau priffyrdd perthnasol.

Arweiniodd ein casgliadau at yr opsiynau a gyflwynir isod ac fe'u hategir gan yr arsylwadau canlynol:

1. Ceir cyfle am uned o fath ciosg ym Mharc Bryngarw sy'n gymharol isel ei chost a'r gwaith adeiladu yn cael ei gcontractio i Wood-B.

*Yn cael ei ymchwilio gan Awen eisoes.*

2. Mae datblygu lle manwerthu yn y Ganolfan Ymwelwyr yn ateb cost isel y gellir ei roi ar waith yn gynnar.

*Yn cael ei ymchwilio gan Awen eisoes.*

3. Ceir dadl dros archwilio ailddatblygiad y Ganolfan Ymwelwyr.

*Yn cael ei ymchwilio gan Awen eisoes.*

4. Gellid ystyried y cysyniad o ddatblygu adeilad pwrpasol newydd yn yr hirdymor, sy'n cynrychioli cyfle mwy i'r Parc.

*Yn cael ei ymchwilio gan Awen eisoes.*

5. Bydd datblygu B-Leaf ymhellach fel canolfan arddio yn denu mwy o ymwelwyr i'r safle ac yn cynyddu cyfleoedd manwerthu yno.

*Mae siop yn cael ei sefydlu ar y safle eisoes.*

6. Bydd angen rhoi sylw i rai bylchau o ran sgiliau yn y pen draw. Bydd llawer o'r wybodaeth a'r profiad manwerthu yn cael ei ddatblygu wrth i'r gwahanol brosiectau manwerthu aeddfedu. Fodd bynnag, wrth i'r Parc ddatblygu'n fasnachol, efallai y bydd angen gwerthusiad o unrhyw fylchau o ran sgiliau.

*Mae rheolwr eisoes wedi'i recriwtio i fynd i'r afael â hyn a helpu i symud y Parc yn ei flaen.*

7. Ceir cyfle i ddatblygu enw da am fanwerthu crefftiau a chynnyrch lleol.

*Mae hyn yn cael ei archwilio a'i gyflawni yn ymarferol.*

### **1.5 Opsiynau Manwerthu**

Nodwyd chwe opsiwn manwerthu ar gyfer Parc Bryngarw. Maent yn cynrychioli nifer o fodelau â gwahanol lefelau o gymhlethdod ac argymhellir bod unrhyw un sy'n cael ei ddatblygu ymhellach yn destun asesiad busnes manylach.

Yr opsiynau ar gyfer manwerthu sy'n cael eu cyflwyno yw'r rheini sy'n realistig ac y mae modd eu cyflawni o ystyried maint y Parc ac adnoddau Awen. Mae rhai yn 'enillion cyflym' a fydd yn gymharol syml i'w rhoi ar waith, ac mae eraill yn fwy cymhleth a byddant yn gofyn am ymchwilio a chynllunio manwl. Fe'u cyflwynir ar y sail bod comisiynwyr yr adroddiad hwn yn deall yr angen am ddiwydrwydd dyledus priodol ar gyfer pob opsiwn a fabwysiadir.

Cydnabyddir bod archwilio rhai o'r opsiynau hyn wedi dechrau eisoes, ac mae eraill yn dilyn dull mwy hirdymor a fydd yn cael ei ystyried dros amser. Mae'n bwysig nodi felly y gallai'r opsiynau hyn fod yn rhan o weithgareddau'r Parc eisoes.

Dyma'r 6 opsiwn allweddol a gyflwynir ar gyfer manwerthu ym Mharc Bryngarw:

#### **OPSIWN**

**1** Troi'r Ganolfan Ymwelwyr bresennol yn lleoliad manwerthu.

**2** Datblygu cynnig manwerthu newydd a chynnwys Wood-B ar safle B-Leaf.

**3** Ailddatblygu'r Ganolfan Ymwelwyr a'r llwybr a'r bloc toiledau drws nesaf.

**4** Adeiladu lleoliad manwerthu pwrpasol yn agos at yr adeilad presennol ym mhen y maes parcio.

**5** Strwythur o fath ciosg bach ar gyfer byrbrydau, lluniaeth ysgafn a diodydd.

**6** Datblygu cynnig manwerthu o fewn B-Leaf

#### **STATWS**

Yn cael ei ymchwilio

Ceisiwyd caniatâd cynllunio eisoes i gynnwys Wood-B ar safle B-Leaf o dan gynlluniau blaenorol yn 2014. Er iddynt gael eu rhoi o'r neilltu yn flaenorol, mae'r cynlluniau hyn yn cael eu hailystyried bellach.

Mae hyn yn cael ei ymchwilio.

Bydd o bosibl yn rhan o ddatblygiadau yn y dyfodol.

Yn cael ei gyflwyno eisoes.

Yn cael ei gyflwyno eisoes.

Mae'r rhain yn dangos y cyfleoedd allweddol o ystyried lle ac adnoddau Awen a Pharc Bryngarw. Efallai y bydd cyfleoedd eraill, yn enwedig o ran datblygu cynhyrchion Wood-B a B-Leaf ymhellach, eu marchnata a'u brandio, ond mae'r ystyriaethau hyn y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn.

#### **Effaith**

Mae'r perygl o unrhyw effaith negyddol ar y Parc, y gymuned leol, ymwelwyr a rhanddeiliaid yn isel ac, yn gyffredinol, mae datblygiad cynnig manwerthu yn y Parc wedi derbyn ymateb cadarnhaol iawn ymhlith y rheini a ganfasiwyd.

Yr hyn sy'n peri'r mwyaf o bryder yw mynediad ffordd, sydd yn achosi heriau, yn enwedig ar gyfer digwyddiadau lle mae llawer iawn o bobl a choetsys yn cyrraedd dros gyfnod byr o amser. Bydd angen asesu'r heriau hyn yn fanylach, a gallai gynnwys strategaeth o ymgysylltu â'r adran Priffyrdd leol, trigolion a rhanddeiliaid eraill i fynd i'r afael â'r materion allweddol.

Bydd angen ystyried hefyd yr hyfforddeion sy'n mynychu B-Leaf ac Wood-B gan y gallai'r effaith ar hyfforddeion fod yn fwy sylweddol, pan allai unrhyw ddatblygiad neu newid i arfer fod yn gythryblus. Gallai cynnig manwerthu ychwanegu at y newid diwylliannol parhaus sy'n effeithio ar staff a hyfforddeion yn y Parc ac efallai y bydd angen ystyried hyn mewn unrhyw broses weithredu.

## 2 Astudiaeth Ddichonoldeb

### 2.1 Cefndir

Mae Parc Gwledig Bryngarw, sy'n Barc a Gardd Hanesyddol rhestredig Gradd II, yn un o atyniadau ymwelwyr mwyaf Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gyda dros 200,000 o ymweliadau bob blwyddyn. Ceir 113 erw yn y parc, sy'n goediog yn bennaf gydag ardaloedd o ddolydd, gwlyptir a dŵr croyw, gardd ffurfiol a mannau ar gyfer defnydd amwynder sydd wedi bod ar agor i'r cyhoedd ers 1986.

Mae amwynderau'r Parc yn cynnwys caffi sy'n cael ei redeg yn annibynnol, canolfan ymwelwyr ac mae hefyd yn gartref i Arddwriaeth B-Leaf, prosiect seiliedig ar waith i oedolion ag anableddau dysgu sy'n helpu i redeg planhigfa sydd ar agor i'r cyhoedd. Nid oes unrhyw gynnydd manwerthu yn y parc ar hyn o bryd.

Mae Tŷ Bryngarw hefyd yn rhan o'r Parc. Adeilad hanesyddol a gaiff ei reoli ar ran Awen gan bartner masnachol yn lleoliad priodasau a digwyddiadau ar hyn o bryd. Os hoffech ragor o wybodaeth am y parc, ewch i <http://www.awen-wales.com/cy/>.

Sefydliad elusennol newydd yw Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, a sefydlwyd ar 1 Hydref 2015 i redeg gwasanaethau a chyfleusterau diwylliannol ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gan gynnwys: Tŷ a Pharc Gwledig Bryngarw a'i gynlluniau hyfforddiant seiliedig ar waith cysylltiedig i oedolion ag anableddau dysgu (Garddwriaeth B-Leaf a Gwaith Coed Wood-B); Llyfrgelloedd; Pafiliwn y Grand Porthcawl, Neuadd y Dref Maesteg; Neuadd Gweithwyr Blaengarw a nifer o ganolfannau cymunedol.

Mae gan Awen fwrdd annibynnol o Ymddiriedolwyr a thîm o tua 140 o aelodau staff wedi eu goruchwylio gan Dîm Arweinyddiaeth Weithredol yn cynnwys Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyfarwyddwr Datblygu Busnes.

Er mwyn gwella profiad y cwsmer ymhellach a gwella cynaliadwyedd y Parc a'i wasanaethau cysylltiedig yn y dyfodol, mae Awen yn awyddus i sefydlu cynnydd manwerthu priodol ac effeithiol â phwyslais penodol ar gynhyrchion a gwasanaethau o ffynonellau lleol gan gynnwys y rheini a gynhyrchir gan gynlluniau gwaith i bobl anabl Awen ym meysydd gwaith coed (Wood-B) a Chynnal a Chadw'r Tir/Garddwriaeth (B-Leaf).

Mae gan Awen hanes o weithio gyda chynhyrchwyr a chyflenwyr lleol ac mae'n awyddus i atgyfnerthu'r cysylltiadau hyn er mwyn sicrhau y cynhelir ymdeimlad o ddilysrwydd o fewn unrhyw ddewis cynhyrchion.

Nid oes unrhyw fan manwerthu ffurfiol ar hyn o bryd, ac eithrio'r cynhyrchion bwyd a werthir yng Nghaffi Cedars a rhai planhigion ac eitemau gardd a werthir yn B-Leaf. Cyflawnir busnes rhesymol yn y caffi sy'n adlewyrchu gweithgarwch ymwelwyr. Mae nifer o drigolion lleol yn mynd i'r caffi am ginio ond mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o fusnes yn dod o du teuluoedd â phlant.

Ceir nifer o wahanol fannau busnes ym Mharc Bryngarw ei hun ar hyn o bryd, sef:

- Y Parc a'r gerddi,
- Tŷ Bryngarw,
- B-Leaf,
- Wood-B,
- Caffi Cedars, a'r
- Ganolfan Ymwelwyr.





### **Gweledigaeth**

Mae Parc Bryngarw a'i gwmnïau cysylltiedig yn rhan o bortffolio cyffredinol Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen o safleoedd, lleoliadau ac eiddo diwylliannol. Fel y cyfryw, mae'n cydymffurfio â'r athroniaeth "*gwella bywydau pobl*" sy'n sail i bopeth y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud.

Y weledigaeth arbennig ar gyfer y Parc yw datblygu'n sefydliad cynaliadwy gan barhau i wella profiad y defnyddiwr a thrwy ddatblygu cynnig manwerthu effeithiol, gan gefnogi cynhyrchwyr a chyflenwyr lleol, a darparu gweithlu sy'n cefnogi ei staff a'i hyfforddeion.

### **Cenhadaeth**

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr angen i ganfod dichonoldeb datblygu lleoliad manwerthu a masnachol cynaliadwy sy'n cefnogi hyfforddeion, staff a rhanddeiliaid eraill.

## Nodau ac Amcanion

- Nodi cynhyrchion sydd o ffynonellau lleol neu wedi eu gwneud yn lleol sy'n cyd-fynd â'r brand ac â phwyslais penodol ar botensial B-Leaf a Wood-B
- Nodi cynnyrch lleol priodol gan archwilio potensial y rhwydwaith bwyd lleol a sefydlwyd gan Reach eisoes.
- Datblygu cysylltiadau newydd â chyflenwyr lleol eraill a chryfhau partneriaethau presennol yn y parc
- Dod o hyd i ffyrdd o adrodd hanes y cynhyrchion a'r gwasanaethau hyn i ymwelwyr
- Priodoldeb unrhyw ddatblygiad cynnyrch yn B-Leaf a Wood-B i sicrhau bod ystyriaeth lawn o anghenion hyfforddeion
- Datblygu adeiladau'r parc i wneud cynnig manwerthu priodol
- Ystyried yr effaith ar fusnesau/cyflenwyr lleol eraill i sicrhau cyn lleied o ddadleoliad â phosibl
- Marchnata unrhyw gynhyrchion a gwasanaethau newydd
- Datblygu gweithgareddau gwirfoddoli er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau manwerthu
- Problemau mynediad gan gynnwys trafndiaeth ac ati
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i ddeall disgwyliadau cwsmeriaid

## Effaith Gymdeithasol

Mae Parc Bryngarw wedi etifeddu dau wasanaeth hyfforddi allweddol gan yr Awdurdod Lleol sy'n cynorthwyo pobl ag anableddau dysgu (hyfforddeion) a ddarperir yn Wood-B a B-Leaf. Er y bydd gweithgarwch masnachol yn rhan bwysig o sut y mae'r darpariaethau hyn yn cael eu cynnal a'u datblygu, mae'r ffordd y mae gwasanaethau o'r fath yn cael eu comisiynu a'u caffael wedi symud tuag at 'daliadau unigol' a'r broses o brynu gweithgareddau gan yr hyfforddeion a'u gofawyr y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod Lleol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn deall bod y farchnad mewn cyflwr newidiol ac yn cydnabod sut y bydd yr adroddiad hwn yn helpu i gefnogi achos busnes ehangach sy'n cynnwys sut y mae gwasanaethau yn cael eu cynnig a'u prynu gan eu hyfforddeion a'u gofawyr.

## Gwasanaethau a'r Ddarpariaeth yn y Gweithle

Gall darparu llwybr at gyflogaeth fod yn gynnig deniadol iawn i'r rheini sy'n cael eu cynorthwyo yn Wood-B a B-Leaf ar hyn o bryd. Gall datblygu sgiliau allweddol ochr yn ochr â gweithgareddau awyr agored creadigol gynnig llwyfan i bobl allu datblygu ohono y tu hwnt i gwmpas y gwasanaeth a gafwyd. Gallai hyn gynyddu'r incwm a gynhyrchir a'r canlyniadau cymdeithasol cadarnhaol, gan arwain at ddull mwy 'bywyd cyfan' o ddarparu gwasanaethau.

Yn y pen draw, gellid datblygu hyn yn fodel hybrid, lle mae gwasanaethau dydd yn gweithio ochr yn ochr â model cyflogaeth. Enghraifft leol dda o hyn yw Beacons Creative, gweithdy gwneud canhwylau yn Aberhonddu sydd wedi datblygu o wasanaeth gofal dydd bach i fod yn gwmni cymdeithasol llwyddiannus. Mae Beacons Creative yn cyflogi tua rhyw dau ar bymtheg o'u 'hyfforddeion' erbyn hyn, sy'n gweithio ochr yn ochr ag eraill ar leoliadau dydd, ac maent wedi ehangu i feysydd busnes eraill, gan gynnwys caffi, siop a chynnyrch cosmetig, ac wedi ymestyn eu cynnig o wasanaethau i gynnwys nosweithiau a phenwythnosau i grwpiau eraill a gynorthwyr.

Bydd unrhyw gynnig manwerthu yn y dyfodol yn galluogi Awen i ehangu gweithgarwch hyfforddeion a datblygu cyfleoedd dysgu newydd. Bydd yn cynnig llwyfan ar gyfer cynyddu sgiliau a gwella cyfleoedd cyflogaeth yn fwy cyffredinol. Gall hefyd fod yn bosibl cynnig lleoedd Dewis Gwaith, neu sefydlu partneriaeth â darparwr Dewis Gwaith fel Ymddiriedolaeth Shaw ym Mhen-y-bont ar Ogwr, i gynnig lleoliadau gwaith.

Hefyd, mae cyfleoedd cyflogaeth ar gael i grŵp ehangach o bobl trwy Goleg Penybont, rhaglen Pontydd i Waith C yngor Pen-y-bont ar Ogwr, y Ganolfan Byd Gwaith, Prosiect Cyflogaeth a Sgiliau Cymunedau yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr, Gyrfa Cymru, gwirfoddoli a mentrau seiliedig ar waith eraill.

### **Cydnawsedd â Pholisi**

Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, Strategaeth Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr a Chynllun Rheoli Cyrchfannau Pen-y-bont ar Ogwr yw'r strategaethau allweddol a ystyriwyd ar gyfer yr adroddiad hwn.

Dyma'r amcanion cyflenwi ar gyfer Strategaeth Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr:

- 1 Lle i fyw – Creu cymunedau gwledig hunangynhaliol
- 2 Lle i ymweld ag ef – Datblygu mentrau gwledig amrywiol
- 3 Lle i weithio – Cefnogi economïau gwledig llewyrchus

Cefnogir y rhain trwy amrywiaeth o Amcanion Cyflawni. Amcan Cyflenwi AS2.3 yw hwyluso gweithgareddau sy'n arwain at ddatblygu a chynnal amrywiaeth o lety ac atyniadau ymwelwyr sy'n rhagori ar ddisgwyliadau cwsmeriaid ac sy'n cadarnhau'r farn bod ardal wledig Pen-y-bont ar Ogwr yn 'lle gwych i ymweld ag ef'. Nod yr Astudiaeth Ddichonoldeb hon fydd bodloni'r amcan cyflenwi hwn trwy archwilio profiad manwerthu a chyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant a lleoliadau gwaith.

O ran manwerthu, mae'r gyfres hon o egwyddorion yn cynnig cyd-destun ar gyfer sut y mae cynnig manwerthu yn cael ei wireddu a'i reoli. Dylid sicrhau bod yr effaith ar fusnesau, cynhyrchwyr a chadwyni cyflenwi lleol cyn lleied â phosibl a dylai'r gweithrediad adlewyrchu ethos cymdeithasol a llesiant y sefydliad.

#### **• Cynllun Rheoli Cyrchfannau Pen-y-bont ar Ogwr**

Nod a blaenoriaethau

Mae Pen-y-bont ar Ogwr eisiau: Datblygu economi ymwelwyr ffyniannus ym Mhen-y-bont ar Ogwr sy'n dathlu cryfderau unigryw'r lle, yn cefnogi swyddi, yn cynhyrchu cyfleoedd busnes ac yn gwella'r amrywiaeth o amwynderau sydd ar gael i ymwelwyr a phobl leol. Mae hyn yn golygu datblygu economi ymwelwyr hyfyw, arloesol a chynaliadwy sy'n cydblethu â'r ardal ac yn cyflwyno buddion net i'r boblogaeth leol am genedlaethau i ddod.

Hefyd, maent yn dymuno bod o fudd i economi ehangach y Sir trwy gryfhau delwedd yr Awdurdod Lleol a datblygu cysylltiadau â sectorau eraill o'r economi.

I gyflawni hyn, byddant yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol:

- 1 Cefnogi datblygiad y cynnyrch twristiaeth
  - a) Cefnogi llety gwell
  - b) Cefnogi atyniadau gwell

## 2 Cefnogi datblygiad seilwaith twristiaeth

- a) Gwella'r adnodd arfordirol
- b) Buddsoddi yn yr aneddiadau
- c) Gwella'r adnodd cefn gwlad
- ch) Gwella trafnidiaeth a seilwaith cysylltiedig ar gyfer twristiaeth
- d) Datblygu adnoddau dynol twristiaeth

## 3 Codi proffil Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a denu mwy o ymwelwyr yno

- a) Hyrwyddo Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- b) Datblygu portffolio amrywiol o ddiwyddiadau

Trwy wneud hynny, bydd y Cyngor yn sicrhau'r canlynol:

- Cynaliadwyedd Sicrhau bod gan dwristiaeth ddyfodol hirdymor hyfyw a bod y buddion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn fwy na'r costau.
- Ansawdd Ymdrechu i wneud pethau'n dda a gwella'r profiad cyffredinol i'r ymwelydd fel y llwybr i lwyddiant.
- Budd lleol Sicrhau bod pobl lleol a busnesau lleol yn cael budd o dwristiaeth ac yn ei ystyried yn nodwedd gadarnhaol o fywyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- Partneriaeth Gweithio ar y cyd i wneud y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau pa un a yw hynny rhwng awdurdodau ac asiantaethau neu'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.
- Nodweddion Unigryw Manteisio ar adnoddau naturiol a dynol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i greu rhywbeth arbennig sy'n gwahaniaethu'r gyrchfan o leoedd eraill ac yn rhoi mantais iddi.

Rydym yn gwybod y bydd llawer o heriau, ond, ynghyd â'n sefydliadau partner, rydym o'r farn:

- Bod gan Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gynnig amrywiol a diddorol a llawer o botensial o safbwynt twristiaeth, ond nid yw'r cynnig yno'n llwyr eto.
- Bod potensial i ddatblygu chwaraeon dŵr, golff a gweithgareddau awyr agored eraill ymhellach.
- Bod y diwydiant yn frwdfrydig ar y cyfan am botensial y Sir ac maent o'r farn bod dyfodol i dwristiaeth ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- Bod digwyddiadau yn allweddol i gynhyrchu ymweliadau ac ymwybyddiaeth a dylid rhoi mwy o bwyslais ar hyn.
- Bod dyhead ymysg busnesau i gydweithio i gynnig pecynnau mwy dynamig.
- Bod dyhead ymysg adrannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gydweithio yn fwy effeithiol.

### • **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddiwygio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol; i wneud darpariaeth ynglŷn â gwella'r canlyniadau llesiant i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth; i wneud darpariaeth ynglŷn â chydweithrediad a phartneriaeth gan awdurdodau cyhoeddus â'r nod o wella llesiant pobl; i wneud darpariaeth ynglŷn â chwynion yn ymwneud â gofal cymdeithasol a gofal lliniarol; ac at ddibenion cysylltiedig. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol a llesiant eu caffael ar ran cymunedau Cymru ac yn pwysleisio angen a phwysigrwydd atal ac ymyrraeth gynnar a sut y mae awdurdodau lleol yn gweithio ar y cyd i ddarparu amrywiaeth o ddarpariaeth y gellir ei darparu gan fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, grwpiau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a sefydliadau Trydydd Sector.

Mae Adran 16 o'r Ddeddf yn cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector. Y nod yw sicrhau bod pobl yn cael eu cynnwys yn fwy yn y gwaith o lunio a gweithredu gwasanaethau, a defnydd cynyddol o fodelau darparu sydd wedi'u seilio ar werthoedd cymdeithasol a nodir yn fentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol, yn arbennig, ond nid yn unig, ym maes ymyrraeth gynnar/atal.

#### • **Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Diben Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn gwneud i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl yn fwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig.

Bydd hyn yn helpu i greu Cymru y mae pob un ohonom yn dymuno byw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol.

- Nodau Llesiant

- 1 Cymru sy'n fwy cyfartal
- 2 Cymru o gymunedau cydlynus
- 3 Cymru iachach
- 4 Cymru gydnerth
- 5 Cymru lewyrchus
- 6 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- 7 Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

#### • **Polisi Caffael Cymru**

Egwyddorion Polisi Caffael Cymru a ddiwygiwyd ganol 2015, sy'n hybu'r 10 egwyddor polisi canlynol:

- |   |  |   |
|---|--|---|
| 1 | Strategol  | Dylai gwaith caffael gael ei gydnabod a'i reoli fel swyddogaeth gorfforaethol strategol sy'n trefnu a deall gwariant; gan ddylanwadu ar y gwaith cynnar o gynllunio a threfnu gwasanaethau a chyfrannu at y broses benderfynu er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion cyffredinol. |
| 2 | Adnoddau proffesiynol                            | Dylai gwariant caffael fod yn ddarostyngedig i lefel briodol o gyfraniad a dylanwad proffesiynol, gan fabwysiadu'r meincnod cychwynnol o un gweithiwr caffael proffesiynol o leiaf i bob £10 miliwn o wariant ar draws y sector cyhoeddus ehangach.                                     |
| 3 | Effaith Economaidd, Gymdeithasol ac Amgylcheddol | Dylid ystyried Gwerth am Arian fel y cyfuniad gorau posibl o gostau oes gyfan o ran sicrhau arbedion a chanlyniadau o safon uchel ar gyfer y sefydliad, a hefyd dylai fod o fudd i gymdeithas a'r economi a'r amgylchedd yn awr ac yn y dyfodol.  |
| 4 | Manteision Cymunedol                             | Mae'n rhaid i gyflawni budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol trwy gymhwyso polisi Manteision Cymunedol yn effeithiol fod yn rhan annatod o waith caffael.   |

5	Cystadleuaeth agored, hygyrch	Dylai cyrff cyhoeddus fabwysiadu dulliau caffael cymesur sy'n seiliedig ar risg i sicrhau bod cyfleoedd contract ar gael i bawb ac nad yw cyflenwyr lleol a llai o faint yn cael eu hatal rhag ennill contractau fel unigolion, fel rhan o gonsortia neu drwy swyddogaethau yn y gadwyn gyflenwi.
6	Prosesau Safonol Syml	Dylai prosesau caffael fod yn agored a thryloyw ac yn seiliedig ar ddulliau safonol a dylent ddefnyddio systemau cyffredin sy'n lleihau cymhlethdod, cost, amserlenni a gofynion cyflenwyr mewn ffordd briodol.
7	Cydweithredu	Dylid mynd i'r afael â meysydd o wariant cyffredin ar y cyd gan ddefnyddio dulliau a manylion safonol a reolir gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) i leihau dyblygu, i gael yr ymateb gorau gan y farchnad, i wreiddio egwyddorion y Datganiad Polisi hwn er budd Cymru; ac i rannu adnoddau ac arbenigedd.
8	Ymgysylltu â Chyflenwyr ac Arloesi	Dylid gwella deialog â chyflenwyr i helpu i gael y gorau o'r farchnad, i hysbysu ac addysgu cyflenwyr ac i sicrhau'r gwerth am arian gorau.
9	Datblygu a Gweithredu Polisi	Defnyddio polisi sy'n cefnogi cyflawni'r saith nod llesiant ar gyfer Cymru fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)
10	Mesur ac Effaith	Yn unol ag arferion rheoli da, dylid monitro perfformiad a chanlyniadau gwaith caffael i gefnogi gwelliannau parhaus a dylai enghreifftiau o arferion da a drwg gael eu rhannu'n agored.

## 2.2 Ymgynghoriadau

### Arolwg Ymwelwyr

Cynhaliwyd ymgynghoriad rhyngweithiol i archwilio ymateb y cyhoedd i gynnig manwerthu posibl ym Mharc Bryngarw. Fe'i cynhaliwyd dros gyfnod o ddau ddiwrnod yn ystod hanner tymor mis Chwefror. Dewiswyd y ddau ddiwrnod i gyd-daro â gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer teuluoedd yng Nghanolfan Ymwelwyr Bryngarw. Roedd yr ymgynghoriad yn rhyngweithiol, yn ddifyr ac yn ddefnyddiol o ran casglu amrywiaeth o ddata o gyfres gryno o gwestiynau.

Neilltuwyd y cod lliw canlynol i ymatebion y rheini a gymerodd ran:

- Coch / Pinc – Teuluoedd
- Gwyrdd – Grwpiau
- Glas – Parau
- Melyn – Unigolion

Yn ddealladwy, cafwyd mwyafrif yr ymatebion gan deuluoedd, sef y farchnad darged ar gyfer y digwyddiadau a oedd yn cael eu cynnal. Roedd y grwpiau yn cynnwys teulu a ffrindiau, parau a phobl a oedd yn mynd â'u cŵn am dro yn bennaf. 2 unigolyn yn unig oedd yn rhan o'r arolwg, un yn aros i gar gael ei drwsio yn y pentref, a'r llall a oedd yn ymweld oherwydd chwilfrydedd gan ei fod yn pasio heibio.

Cymhwyswyd rhai addasiadau i'r data a gasglwyd i ystyried y ffaith bod rhai plant wedi defnyddio sticeri ychwanegol.

Cyflwynwyd yr ymgynghoriad mewn pum rhan:

#### Rhan 1. Cyfansoddiad yr ymwelwyr:

- a. O ble y gwnaeth yr ymwelwyr deithio
- b. Yn ymweld fel teulu, pâr, ffrindiau neu ar eu pen eu hunain
- c. Rheswm am yr ymweliad
- ch. Dull o deithio
- d. A ydynt yn ymwelwyr rheolaidd

Casglwyd cymaint â phosibl o'r wybodaeth uchod (cofnodwyd a a b ar y map), a gellid casglu gweddill yr wybodaeth trwy sgysiau yn unig. Ar yr ail ddiwrnod, pan roedd nifer yr ymwelwyr yn uchel iawn, nid oedd yn bosibl siarad â phob ymwelydd.

#### Rhan 2. Safbwyntiau ar gynnig manwerthu ym Mharc Bryngarw

- a. Barn ar gynnig manwerthu ym Mharc Bryngarw
- b. Pa fath o gynhyrchion sydd o ddiddordeb i ymwelwyr â Pharc Bryngarw
- c. Yr hyn sy'n dylanwadu ar eu penderfyniad i brynu

#### Rhan 3. Yr hyn y mae ymwelwyr yn ei ffafrio o ran y mathau o luniaeth yr hoffent eu gweld ym Mharc Bryngarw.

#### Rhan 4. Unrhyw sylwadau eraill

Roedd bwrdd ychwanegol lle gallai'r rheini oedd yn cymryd rhan adael unrhyw sylwadau ychwanegol yr oeddent o'r farn yr oedd angen eu cynnwys.

#### Rhan 5. Cwestiynau Ychwanegol

Gofynnwyd rhai cwestiynau ychwanegol pan oedd amser yn caniatáu.

## Canlyniadau'r Arolwg

### Rhan 1. Cyfansoddiad yr Ymwelwyr

Cofnodwyd lleoliadau cartref yr ymatebwyr ar fap mawr o Sir Pen-y-bont ar Ogwr a'r cyffiniau. Daeth y rheini a gymerodd ran o hyd i'w cyfeiriad cartref a rhoi sticer lliw ar y map i'w ddangos. Os nad oedd eu cyfeiriad cartref ar y map, ychwanegwyd nodyn bach gludiog i nodi'r cyfeiriad cyffredinol ac enw'r lleoliad.

Mae canlyniadau'r arolwg lleoliad fel a ganlyn:

Yn ymweld o	Teuluoedd	Mathau o Ymwelwyr		Unigolion
		Grwpiau	Parau	
Abercynffig	1			
Coed-duon, Gwent	1			
Blaendulais (Seven Sisters SA10)	1			
Bracla	2			
Tref Pen-y-bont ar Ogwr	8			
Broadlands Fach	1			
Bryncethin	2			
Brynmenyn	2			
Coety	5			
Llangrallo	2			
Creigiau (Ger Caerdydd)	3			
Cymdda	2			
Cwm Garw	3			
Gilfach Goch	2			
Hernston	1			
Hirwaun	1			
Llanharan RhCT	2			
Llanharan RhCT		1		
Llanhari	3			
Maesteg	6			
Nant-y-moel Cwm Ogwr	1			
Castell-nedd	1			
Y Castellnewydd (Pen-y-bont ar Ogwr)	1			
Gogledd Corneli	1			
Gogledd Corneli		1		
Cwm Ogwr	1			
Cwm Ogwr			2	
Pencoed	4			
Pendre				1
Pen-y-fai	2			
Y Pîl	1			
De Corneli		1		
Saint-y-brid	1			
Tondu	1			
Tonyrefail	1			
Tremain	1			
Coed Tremain				1
Treorci RhCT		1		



Teithiodd mwyafrif yr ymwelwyr o'r tu mewn i radiws o 10 milltir o'r Parc, wrth i'r rhan fwyaf ddod o Dref Pen-y-bont ar Ogwr a'r cyffiniau. Y tu allan i ffin y Map, Maesteg oedd y lleoliad mwyaf poblogaidd nesaf ac yna Rhondda Cynon Taf. Roedd pob ymwelydd ac eithrio 2 a arolygwyd wedi teithio mewn car, hyd yn oed y rhai lleol.

## **Rhan 2. Cynnig Manwerthu ym Mharc Bryngarw**

Mae'n bwysig gwerthuso'r ymateb cyffredinol i gynnig manwerthu yn y Parc ac archwilio sut groeso y bydd unrhyw gynnig o'r fath yn ei gael. Roedd y cwestiynau a ofynnwyd wedi eu fframio i gynnig ymatebion pendant a oedd yn nodi'n eglur y dewisiadau a wnaed. Mae'r cod lliwiau drwy'r ymgynghoriad cyfan yn cynnig dull o gasglu data ar draws y pedwar grŵp a arolygwyd.

Defnyddiwyd y tri chwestiwn canlynol:

a. Sut ydych chi'n teimlo am gynnig manwerthu ar y safle?

Dyma ymatebion yr ymwelwyr:

Barn	Teuluoedd	Grwpiau	Parau	Unigolion
Hoffi	91	6	2	3
Ddim yn hoffi	0	0	0	0
Ddim yn gwybod	6	0	0	0

Wrth wneud eu dewisiadau, mynegodd yr ymatebwyr lefel uchel o ddiddordeb yn y cysyniad gan gyfleu ymateb cadarnhaol iawn, lle'r oedd 94.4% o'r 108 o ymatebion a gafwyd yn hoffi'r syniad a dim ond 5.6% oedd yn ansicr. Nid oedd unrhyw ymatebion yn nodi nad oeddent yn hoff o'r syniad.

b. Pa fath o gynnyg manwerthu hoffech chi ei weld yma?

Math o gynhyrchion	Teuluoedd	Grwpiau	Parau	Unigolion
Crefftau Cymreig	53	4	2	2
Anrhegion	37	4	1	0
Cofroddion	19	1	1	0
Bwyd a gynhyrchir yn lleol	57	4	2	0
Arall	Roedd gan 3 o'r rheini a arolygwyd ddiddordeb penodol mewn prynu mêl lleol. Byddai gan 2 o'r rheini a arolygwyd ddiddordeb mewn dosbarthiadau crochenwaith			

Cadwyd y dewis o gynhyrchion yn fras yn benodol er mwyn annog ymateb ehangach. Mae'r canlyniadau yn dangos bod Bwyd a Gynhyrchir yn Lleol yn cynrychioli 33.7% o'r holl ymatebion, a bod Crefftau Cymreig yn 32.5% o'r 187 o ymatebion a dderbyniwyd. Anrhegion oedd nesaf, a chofroddion oedd yr ymateb isaf o'r dewisiadau a roddwyd.

c. A fyddai unrhyw un o'r canlynol yn dylanwadu ar yr hyn y byddech yn ei brynu?

Dylid nodi y gwelwyd plentyn yn rhoi sticeri ar y siart ar hap. Fodd bynnag, prin oedd yr effaith y cafodd hyn ar y canlyniadau, sydd wedi eu haddasu'n briodol.

Dyma'r atebion wedi'u haddasu:

	Dim dylanwad			Dylanwad cryf	
	1	2	3	4	5
Crefftau a bwyd a gynhyrchir yn lleol	1	1	5	4	50 6 2 1
Cynhyrchion naturiol / organig lleol	3	5	7 1	11 3	25 1 2 1
Pris	4	1	7 2	8 2	30 3 4
Ansawdd	1	1	11	7 2	27 5 1
Cefnogi busnes lleol	1	4	4 1	12 1	31 5 1 1
Maint cludadwy / gwasanaeth danfon	10	1	9 1	9 3 2	10 2
Ar gael i'w brynu ar-lein	10	4	7	7 1	15 5 1

399 oedd cyfanswm nifer yr ymatebion, a chafodd y mwyafrif eu dylanwadu gan leoliaeth, pris ac ansawdd. Rhoddwyd mwy na dwbl nifer yr ymatebion ar gyfer 'crefftau a bwyd a gynhyrchir yn lleol', gyda 59 o 70 yn cael eu dylanwadu'n gryf gan y maen prawf hwn. O ran 'maint cludadwy/gwasanaeth danfon' ac 'ar gael i'w brynu ar-lein', dim ond 12 a 21 o ymatebion, yn eu trefn, nododd y rhain yn ffactorau pwysig.

### Rhan 3. Pa luniaeth yr hoffech ei weld yn cael ei gynnig yn y caffi?

Mae'r dewis o luniaeth a gynigir yn nodweddiadol o'r sector a'r mathau sydd ar gael yn gyffredinol. Derbynnir nad yw cynigion arbenigol a/neu fwytai thema, cadwyn neu sefydliadau arbenigol eraill wedi eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. Cofnodwyd dewisiadau'r ymatebwyr trwy ddefnyddio gleiniau lliw a oedd yn cyfateb i'r sticeri a ddefnyddiwyd ar y siartiau wal.

Disgrifiad	Teuluoedd	Grwpiau	Parau	Unigolion
Prydau poeth	54	6	1	2
Byrbrydau tecawê poeth	61	5	1	1
Prydau opsiwn iach/organig	46	5	2	1
Prydau a byrbrydau llysiuol	39	4	1	1
Diodydd	71	3	2	2
Brechdanau	68	7	2	1
Teisennau	77	7	0	1
Hufen iâ	75	5	0	1

#### Rhan 4. Unrhyw sylwadau eraill yr hoffech chi eu gadael?

Yn ogystal â'r holiadur rhyngweithiol, rhoddwyd lle i bobl adael sylwadau unigol a chynnig awgrymiadau. Roedd hyn yn boblogaidd ac arweiniodd at y nodiadau a'r sylwadau isod:

- "Hoffwn i weld gweithgareddau i blant a rhai sesiynau cael tro ar weithgareddau"
- "Mae'r gweithgareddau yn greadigol iawn. Mae'r fenyw yn y caffi yn gyfeillgar dros ben" 😊
- Gofynnwyd am "ddosbarthiadau crochenwaith a/neu sesiynau rhoi cynnig arni" gan 4 person
- "Caffi mwy ystyriol o blant/babanod"
- "Hyrwyddo Gwehyddu Helyg yn well, bu'n rhaid i mi chwilio ar-lein i ddod o hyd iddo – ddim yn amlwg"
- "Mae parcio yn ddrud, £2.50 drwy'r dydd" Roedd yr unigolyn hwn yn teimlo os oeddech chi wedi talu eisoes i gymryd rhan mewn gweithgaredd (Adeiladau Bocs Adar, sy'n para cyfnod byr yn unig) ei bod yn annheg gorfod talu £2.50 yn ychwanegol gan mai dim ond opsiwn drwy'r dydd sydd ar gael."
- "Dylai fod opsiwn i brynu awr o barcio yn unig"
- "Gellid cynnig parcio..... neu ostwng y ffioedd yn ystod adegau heb fod yn rhai brig"
- "Mae angen i'r caffi fod yn fwy ystyriol o blant"
- "Gwerth da am arian i barcio. Safle ardderchog – llwybrau cerdded hyfryd. Staff parod eu cymwynas"
- "Diwrnod allan gwych – gwerth da am arian i barcio ac roedd adeiladu bocs adar yn weithgaredd anhygoel – fe wnaethom ni gymryd rhan y llynedd a dychwelyd eleni"
- "Byddai arwydd neu hysbysiad ar Facebook/ y wefan yn ddefnyddiol ar gyfer digwyddiadau"
- "Llogi Beiciau, Llogi Bygis, Llogi Cadeiriau Olwyn"
- "Dwyieithrwydd / Mwy o Ddwyieithrwydd"
- "Opsion i brynu tocyn tymor"
- "Des i o hyd iddo ar wefan Mamau a Babis trwy chwilio ar Google am leoedd i ymweld â nhw oddi ar yr M4; byddai'n ddefnyddiol cael arwydd brown ar yr M4"
- "Mae parcio yn rhad. Mae'r safle yn hyfryd. Mae'r gweithgareddau yn dda iawn."
- "Hoffwn i'r caffi agor am fwy o amser ar gyfer diodydd"
- "Ffair / parc"
- "Peiriant diodydd sy'n cynnwys diodydd poeth ac oer"
- "Byddai'n ddefnyddiol cael arwydd brown oddi ar gyffordd 36 yr M4"
- "Gweithdy, creu gemwaith, crochenwaith"
- "Picnic Parod. Bocs Plant – brechdan, diod a bar o siocled. Bocs Oedolion - panini, tortilla wedi'i lenwi, brechdan grasu"
- "Mwy o weithgareddau i blant. Sgyrsiau/cyflwyniadau addysgiadol / tymhorol"
- "Caffi mwy neu wasanaeth tecawê ar gyfer te/coffi a theisen"
- "Gwersi gwnïo"
- "Staff bob amser yn gyfeillgar iawn a digon i'w wneud"

Mae'r arwyddion cynnar yn dangos bod yr ymateb gan y cyhoedd tuag at Barc Bryngarw yn gadarnhaol iawn. Roedd yr ymwelwyr yn hapus ar y cyfan â'r safle a'r cyfleusterau sydd ar gael. Roedd rhyw fymryn o feirniadaeth o'r ffioedd parcio gan nad oedd haenau o dariffau ar gyfer ymweliadau byr, a'r diffyg arwyddion, yn enwedig y tu allan i'r Parc ar y rhwydwaith ffyrdd lleol.

## Rhan 5. Cwestiynau Ychwanegol ac ymchwil arall

Casglwyd gwybodaeth ychwanegol ar y diwrnod cyntaf gan ei bod yn fwy tawel ac roedd gan yr ymwelwyr amser wrth aros am eu tro nhw yn y gweithgaredd adeiladu Bocs Adar. Oherwydd natur y gweithgaredd Gwehyddu Helyg, nid oedd yn bosibl cynnal y cyfweiliadau hyn ar y diwrnod hwnnw.

Rheswm am deithio	Ymweliadau blaenorol / wedi ymweld o'r blaen?	Dull o Deithio	Lleoedd eraill yr ymwelwyd â nhw yn lleol	Argraff gyffredinol
Gweithdy adeiladu bocs adar	Do, wedi ymweld o'r blaen	Car		Mae parcio yn ddrud
Gweithdy adeiladu bocs adar	Droeon, yn lleol o fewn pellter cerdded ac yn meddu ar gi, felly'n ymweld yn rheolaidd	Cerdded		Yn ei hoffi
Llad amser pan fo'r car yn y garej	Ychydig o weithiau gyda theulu a ffrindiau	Cerdded heddiw, weithiau'n beicio		Da iawn, yn arbennig o hoff o'r ardd Siapaneaidd
Gweithdy adeiladu bocs adar	Do	Car	Sain Ffagan, Gerddi Dyffryn, Parc Margam	Da iawn, yn ymweld yn rheolaidd ac yn dod i ddigwyddiadau
Mynd â'r ci am dro	Do	Car		
Gweithdy adeiladu bocs adar	Do, droeon ac yn arfer ymweld yn blentyn hefyd	Car		Wedi teithio o RhCT. Cyfeillion Parc Bryngarw ar Facebook – yn cael clywed am y gweithgareddau. Yn hoff iawn o'r parc a'r gweithgareddau a gynigir
Gwylio adar (Yn ymweld fel pâr)	Yn ymweld yn aml	Car	Gwarchodfa Natur Parc Slip –Tondu Llynnoedd Cwm Garw	Da iawn, amrywiaeth wych o lwybrau cerdded a bywyd gwylt i dynnu llun ohoni. Wir yn ei fwynhau.
Gweithdy adeiladu bocs adar (3 theulu)	Do	Car		Yn ei hoffi'n fawr yma, rydym yn dod llawer o weithiau i gymryd rhan yn y gweithdai
Mynd â'r ci am dro	Do	Car		
Mynd â'r ci am dro – yma'n ymweld o Berkshire	Y tro cyntaf yn ymweld â Pharc Bryngarw	Car	Aberogwr Y Bont-faen	Yn hoffi bod y llwybr beicio ar wahân i'r llwybr cerdded Yn hoffi'r Gerddi Siapaneaidd Dim digon o finiau baw ci

## Ymgynghoriad Crefftwyr

Darparwyd pum cwestiwn ychwanegol ar gyfer digwyddiad crefftwyr a gynhaliwyd gan REACH yn rhan o brosiect arall. Ychwanegwyd y cwestiynau at holiadur arall er mwyn i gynhyrchwyr crefft a oedd yn bresennol yn y digwyddiad allu casglu ymatebion.

Mae'r sampl yn fach ac felly ni ellir ystyried ei fod yn gynrychiadol o'r sector. Fodd bynnag, mae'r cwestiynau a'r ymatebion wedi eu cynnwys gan eu bod yn dynodi bod lleoliaeth a chynhyrchu anrhegion, yn ogystal â phrisiau rhesymol iawn, yn dueddiadau blaenllaw, a cheir ymateb ffafriol i'r posibilrwydd o gyfleoedd manwerthu ychwanegol.

Roedd y cwestiynau a'r ymatebion ar gyfer Crefftwyr a Chynhyrchwyr Lleol fel a ganlyn:

### 1. A allwch chi ddweud wrthym am eich cynhyrchion

	YDYN	NAC YDYN	WEITHIAU
a. A ydynt yn cael eu cynhyrchu'n lleol?	11	1	0
b. A yw eich cynhyrchion yn cael eu gwneud â llaw?	11	1	0
c. A yw eich cynhyrchion yn cael eu tyfu'n lleol?	1	3	1
ch. Wedi eu gwneud â deunyddiau o ffynonellau lleol?	2	4	2
d. A yw eich cynhyrchion yn organig?	0	9	0

### 2. Ym mha categori byddech chi'n rhoi eich cynhyrchion?

a. Math o fwyd	0
b. Anrhegion	10
c. Nwyddau cartref	2
ch. Nwyddau darfodus	0
d. Planhigion / eitemau gardd	2
dd. Arall	9

Nodwch: **Tuswau siocled**

**Rhuban/les**

**Crefft papur**

**Esgidiau lledr**

**Eitemau pren**

**Eitemau pren**

**Crefft papur**

**Cerameg**

**Celf**

### 3. Ym mha categori pris fyddech chi'n rhoi (mwyafrif) eich cynhyrchion?

a. Llai na £5	8
b. £5 - £25	7
c. £25 - £50	3
ch. £50 - £100	0
d. £100 +	1

4. A fyddai gennych chi ddiddordeb mewn cael cyfle i werthu eich cynhyrchion mewn safle manwerthu newydd mewn atyniad cyhoeddus lleol?

<b>BYDDAI</b>	<b>NA FYDDAI</b>
<b>9</b>	<b>1</b>

5. A fyddech chi'n galw'ch hun yn Fenter Gymdeithasol?

	<b>BYDDEM</b>	<b>NA FYDDEM</b>
a. Grŵp Cymunedol / Crefft	<b>5</b>	-
b. Unig Fasnachwr	<b>1</b>	-
c. Cwmni Cyfyngedig	<b>2</b>	-
ch. Menter Gymdeithasol	-	-
d. Elusen	<b>3</b>	-
dd. Arall (nodwch):	<b>Sefydliad Cymorth</b> <b>Sefydliad Cymorth</b> <b>Hobiwr</b>	

### **Ymgynghoriad cynhyrchwyr**

Cynhaliwyd arolwg ychwanegol o gynhyrchwyr lleol, ond roedd yr ymateb yn wael ac felly roedd hwn hefyd yn rhy fach i fod yn sampl gynrychiadol.

Eitemau nad ydynt yn ddarvoudus oedd y mathau o nwyddau a dargedwyd, a fyddai naill ai'n para'n hir neu y gellid eu stocio am gyfnod penagored. Er bod hyn yn cyfyngu'r maes, roedd yn caniatáu model o nwyddau i'w gwerthu yn y Parc yr oedd yn haws ei reoli. Hefyd, cafodd cynhyrchion eu hosgoi pan ellid ystyried y byddai eu cyflwyno yn y Parc yn golygu bod y Parc yn cystadlu â'i hun.

Unwaith eto, roedd lefel yr ymateb a gafwyd yn wael, 15 o ymatebwyr yn unig wnaeth gynnig unrhyw ddata ystyrllon, yn cynrychioli'r cynhyrchion canlynol:

- Cyffeithiau
- Mêl
- Gwin
- Crochenwaith/cerameg
- Teganau
- Celf a chrefft
- Nwyddau gwydr
- Eitemau difyr
- Anrhegion wedi eu personoli
- Gemwaith

Ar y cyfan, gellid rhoi'r busnesau a ganfasiwyd yn y categori anrhegion. O fewn y thema hon, mae lleoliaeth yn amlwg unwaith eto a cheir cefnogaeth gref i gynnig manwerthu lleol.

Roedd y cwestiynau a'r ymatebion fel a ganlyn:

1. A allwch chi ddweud wrthym am eich cynhyrchion

	<b>YDYN</b>	<b>NAC YDYN</b>
a. A ydynt yn cael eu cynhyrchu'n lleol?	<b>13</b>	<b>1</b>
b. A yw eich cynhyrchion yn cael eu gwneud â llaw?	<b>15</b>	<b>0</b>
c. A yw eich cynhyrchion yn cael eu tyfu'n lleol?	<b>4</b>	<b>10</b>
ch. Wedi eu gwneud gyda deunyddiau o ffynonellau lleol?	<b>10</b>	<b>5</b>
d. A yw eich cynhyrchion yn organig?	<b>4</b>	<b>11</b>



2. Ym mha categori byddech chi'n rhoi eich cynhyrchion?

- a. Math o fwyd **4**
- b. Anrhegion **15**
- c. Nwyddau cartref **2**
- ch. Nwyddau darfodus **4**
- d. Planhigion / eitemau gardd -
- dd. Arall -

Nodwch: **Teganau**

3. Ym mha categori pris fyddech chi'n rhoi (mwyafrif) eich cynhyrchion?

- a. Llai na £5 **3**
- b. £5 - £25 **12**
- c. £25 - £50 **6**
- ch. £50 - £100 **4**
- d. £100 + **3**

4. A fyddai gennych chi ddi-ddordeb mewn cael cyfle i werthu eich cynhyrchion mewn safle manwerthu newydd mewn atyniad cyhoeddus lleol?

**BYDDAI**            **NA FYDDAI**  
**14**                    **1**

5. A fyddech chi'n galw'ch hun yn Fenter Gymdeithasol?

- |                            | <b>BYDDEM</b> | <b>NA FYDDEM</b> |
|----------------------------|---------------|------------------|
| a. Grŵp Cymunedol / Crefft | -             | -                |
| b. Unig Fasnachwr          | <b>9</b>      | -                |
| c. Cwmni Cyfyngedig        | <b>6</b>      | -                |
| ch. Menter Gymdeithasol    | -             | -                |
| d. Elusen                  | -             | -                |
| dd. Arall (nodwch):        |               |                  |

### 2.3 Cynhyrchion a Gwasanaethau

a) Portffolio o gynhyrchion presennol

#### Parc Bryngarw

Nid yw'r parc yn cynhyrchu unrhyw gynhyrchion y tu hwnt i ddeunyddiau sydd eu hangen ar gyfer gweithdai a gweithgareddau ar hyn o bryd. Mae rhywfaint o lenyddiaeth am y Parc wedi ei harddangos yn y Ganolfan Ymwelwyr, ond nid oes unrhyw 'gynhyrchion' ar werth i'r cyhoedd.

Prif gynnyrch Parc Bryngarw yw'r Parc ei hun. Fel lleoliad a chyrchfan, mae'n denu rhyw 200,000 o ymwelwyr y flwyddyn sy'n dod i fwynhau'r tiroedd, y gerddi, y man chwarae i blant a'r cafffi. Mae'r rhan fwyaf o refeniw yn deillio o'r ffioedd parcio, digwyddiadau arbennig, gweithgareddau y codir ffi amdanynt ac incwm rhent o Gaffi Cedars a Thŷ Bryngarw.

#### B-Leaf

Sefydlwyd Canolfan Arddwriaeth B-Leaf gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2005 yn Wasanaeth Dydd lled fasnachol i bobl ag anableddau dysgu. Mae'n darparu hyfforddiant garddwriaeth a garddio ac yn gwerthu'r planhigion y mae'n eu tyfu i'r cyhoedd. Hefyd, mae B-Leaf yn gwneud gwaith cynnal a chadw gerddi ym Mharc Bryngarw, lle y mae wedi ei leoli.

Mae eu cynhyrchion yn adlewyrchu natur eu gweithgareddau ac yn cynnwys planhigion, cynwysyddion plannu, cynhyrchion tyfu a gwahanol eitemau gardd eraill fel gwrtaith a basgedi crog.

### Wood-B

Gweithdy diwydiannol pren yw Wood B, sydd wedi ei leoli yng Nghanolfan Fenter Tondu ac yn darparu profiad gwaith, hyfforddiant a chymwysterau NVQ i bobl ag anableddau dysgu trwy gynhyrchu cynhyrchion ac adeiladau pren. Mae eu cynhyrchion yn cynnwys ffensys, deciau, gasebos, cytiau ac eitemau pwrpasol fel darllenfyrddau a gosodiadau ar gyfer coflechau. Maent hefyd yn gallu cynhyrchu prosiectau ac adeiladau ar raddfa fawr, a nhw wnaeth adeiladu Canolfan Arddwriaeth B-Leaf ym Mharc Bryngarw, Canolfan Ddysgu Rockwool a Phrosiect Amgylchedd Sony.

#### b) Cynhyrchion y dyfodol

Bydd angen datblygu'r amrywiaeth o gynhyrchion a gwasanaethau y mae'r Parc yn ei chynnig yn barhaus i gystadlu yn y farchnad. Gellir datblygu'r rhain fel portffolio o nwyddau â brand Awen / Parc Bryngarw y mae'n bosibl eu gwerthu mewn sefydliadau ar draws grŵp Awen a thu hwnt. Gallai nwyddau posibl gynnwys:

Parc Bryngarw: Eitemau difyr wedi'u brandio  
Bwydydd wedi'u brandio (mêl, jamiau, ac ati)  
Llyfrau (planhigion/gweithgareddau) a chardiau post Bryngarw, ac ati

B-Leaf: Amrywiaeth fwy o blanhigion (dan do/awyr agored)  
Teclynnau garddio, cynwysyddion plannu, ac ati  
Datblygu amrywiaeth ehangach o anrhegion sy'n gysylltiedig â garddio  
Posiblirwydd o ddiodydd a byrbrydau ysgafn

Wood-B: Anrhegion bach a difyr  
Amrywiaeth ehangach o ddodrefn  
Eitemau pecyn fflat (unedau, cynwysyddion plannu, ac ati)

#### c) Capasiti a'r potensial i gyflawni

Mae'n bwysig deall bod datblygu a chynnal amrywiaeth o gynhyrchion yn gofyn am adnoddau a'r profiad priodol. Mae Awen wedi cychwyn y broses o lenwi eu bylchau sgiliau ac wedi recriwtio Rheolwr Parc i fod yn gyfrifol am weithgareddau cymdeithasol a masnachol y Parc. Fe'i cynorthwyr gan dîm marchnata Awen sy'n gallu helpu i ddatblygu a gweithredu cysyniadau a strategaethau ar gyfer manwerthu yn y Parc.

Hefyd, bydd unrhyw gynnig manwerthu yn gofyn am sgiliau penodol, ym meysydd manwerthu neu wasanaethu, i sicrhau bod pob menter yn llwyddiannus. Er enghraifft, bydd angen staff diogelwch bwyd ardystiedig a phrofiadol ar gyfer safleoedd gwerthu bwyd a staff gwasanaeth cwsmeriaid medrus ar gyfer siopau. Hefyd, bydd angen cynnwys tiliau, stoc ac offer y bydd angen ei fonitro ar gyfer trin arian parod, diogelwch a rheoli stoc.

ch) Sicrhau bod yr amrywiaeth o gynhyrchion a'r broses gynhyrchu yn ystyried tîm staff gallu cymysg a photensial ar gyfer hyfforddiant seiliedig ar waith.

Mae'r Parc eisoes yn darparu hyfforddiant i bobl ag anableddau dysgu yn Wood-B a B-Leaf. Gellid ymestyn hyn i gynnwys cynhyrchu, manwerthu a datblygu sgiliau ymdrin â chwsmeriaid.

Ceir nifer o enghreifftiau lle mae gan gwmnïau / mentrau cymdeithasol lwybrau gweithredol i gyflogaeth ac yn annog eu hyfforddeion a'u cleientiaid i ymgysylltu â'u busnesau fel hyn. Mae staff Awen wedi ymweld ag un enghraifft benodol eisoes, Beacons Creative yn Aberhonddu, i archwilio'r potensial ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth yn y Parc a sut y mae hyn wedi ei ymsefydlu i'w gweithdy gweithgynhyrchu, eu safle manwerthu a'u cafffi.

#### d) Partneriaethau

Mae gan Awen rwydwaith eang ar draws ei sefydliad a ategir gan grwpiau lleol a phartneriaethau â'r Awdurdod Lleol, REACH, grwpiau masnach lleol a chynhyrchwyr. Mae gan Awen raglen weithredol o ddod o hyd i gyflenwyr newydd a chreu cysylltiadau â sefydliadau eraill hefyd, gyda'r nod o ddatblygu portffolio o gynhyrchion i'w gwerthu yn y Parc.

I B-Leaf, mae hyn yn golygu archwilio a defnyddio cyflenwyr mwy masnachol ar gyfer planhigion a nwyddau cysylltiedig. Nid oedd hyn yn bosibl yn y gorffennol pan oedd o dan reolaeth yr Awdurdod Lleol. Mae hyn wedi creu'r potensial i ehangu'r nwyddau sy'n cael eu gwerthu ac yn cefnogi datblygiad B-Leaf fel canolfan arddio.

Mae Wood-B yn archwilio eu marchnad a'r tueddiadau ynddi. Mae hyn wedi arwain at gynhyrchion newydd fel y drysau tylwyth teg, pentanau llyfrau, dalwyr canhwylau a chistiau storio deunydd ailgylchu, pob un ohonynt yn gynhyrchion y gallai fod yn bosibl eu gwerthu ar-lein.

Mae partneriaid eraill yn cynnwys asiantaeth gyflogaeth arbenigol sydd eisoes wedi arwain at nifer o leoedd hyfforddi ac unigolyn yn cael cyflogaeth leol o ganlyniad i hyn. Mae hyn a chysylltiadau eraill eisoes yn cynnig buddion i'r Parc a'i randdeiliaid.

## 2.4 Gwasanaeth a Gweithle

Mae Parc Bryngarw yn cynnig cyfleoedd yn y gweithle i amrywiaeth eang o bobl trwy Awen, y Parc, Wood-B a B-Leaf. Mae'r cyfle i ddatblygu rhagor o gyflogaeth yn y Parc yn sylweddol, yn enwedig o ystyried manwerthu, a'r potensial y gallai hyn ei gynnig.

Bu rhai camau at hyfforddiant yn y gweithle yn ddiweddar sydd wedi arwain at gyflogi hyfforddai mewn sefydliad manwerthu ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Hefyd, cynhyrchodd yr hyfforddeion amrywiaeth lwyddiannus iawn o geirw pren a werthwyd yn ystod cyfnod y Nadolig yng nghanolfan ymwelwyr y Parc, wedi eu gwneud o bren prysgoed a gasglwyd o'r tir.

Ceir rhagor o botensial ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth yn unrhyw un o'r opsiynau manwerthu a nodir yn yr adroddiad hwn. Po fwyaf sylweddol yw'r opsiwn, y mwyaf yw nifer y cyflogeion posibl, a rhoddir ffigur tybiannol ar gyfer pob un. Fodd bynnag, gellir addasu hyn i gyd-fynd â'r gofynion hyfforddi, er y cynghorir y dylai'r busnes allu cynnal unrhyw gyflogaeth a gynigir.

#### a) Capasiti ar gyfer hyfforddiant seiliedig ar waith

Fel y trafodwyd uchod, mae manwerthu yn cynnig y cyfle i Barc Bryngarw ddarparu hyfforddiant seiliedig ar waith i'w hyfforddeion. Gall y cymysgedd o sgiliau a ddysgir fod yn sail i gynnydd gwirioneddol i'r gweithle. Fel y mae enghraifft Beacons Creative yn ei ddangos, ceir cyfleoedd sylweddol i symud ymlaen i gyflogaeth naill o fewn y busnes neu y tu hwnt yn y gymuned ehangach. Mae'r cynnydd yn amrywio yn dibynnu ar yr hyfforddai, ond gall y canlyniadau i'r unigolyn fod yn ddwfn a newid ei fywyd.

Mae'n anodd asesu'r capasiti ar gyfer hyfforddiant yn y gweithle o gofio natur amrywiol yr opsiynau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae'r swyddi posibl sydd ar gael ym mhob opsiwn wedi eu nodi gyda'r opsiynau eu hunain.

b) Cynnig o hyfforddiant seiliedig ar waith

Bydd hyfforddiant seiliedig ar waith yn gofyn am system o reoli a monitro i sicrhau y gellir asesu a chofnodi canlyniadau yn briodol. Gall yr amser y mae'n ei gymryd i fod yn barod ar gyfer gwaith amrywio'n enfawr rhwng unigolion ac mae'n bwysig cydnabod hyn wrth ddatblygu rhaglenni hyfforddi a llwybrau cynnydd.

c) Gallu i greu tîm o wirfoddolwyr

Mae manwerthu yn cynnig y cyfle i Awen ddatblygu rhaglen wirfoddoli yn rhan o fenter hyfforddiant seiliedig ar waith ehangach. Gallai hyn roi adnoddau ychwanegol i'r Parc a helpu amrywiaeth ehangach o bobl i ymgysylltu â'r Parc a'r gweithgareddau manwerthu ynddo.

Byddai cysylltiadau â Choleg Penybont, Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Waith yn cynnig tîm o bobl a allai elwa'n uniongyrchol ar unrhyw hyfforddiant a gynigir. Hefyd, bydd hyn yn helpu i ddatblygu sgiliau ar gyfer y busnes a'r economi ehangach.

ch) Cyfleoedd i symud ymlaen

Mae'r cyfleoedd hyfforddi ym Mharc Bryngarw yn cynnig llwybr at amgylcheddau gwaith prif ffrwd i unigolion. Trwy fabwysiadu dull datblygu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gall pob oedolyn ag anabledd dysgu wireddu ei ddyheadau am annibyniaeth. Gall hyn arwain at ganlyniadau gwell i'r unigolyn a gostyngiad yng nghost ei gymorth.

## 2.5 Dadansoddi'r Farchnad

### Ffynonellau

Caiff y dadansoddiad hwn o'r farchnad ei lunio gan ddefnyddio data y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr Visit England, Arolwg Atyniadau Twristiaeth Cymru 2015, ac Arolwg Ystadegol y Gynghrair Twristiaeth o 2012, yn ogystal â nifer o ffynonellau lleol o wybodaeth fel Cymdeithas Twristiaeth Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, REACH, Croeso Cymru a data ystadegol ar-lein Llywodraeth Cymru.

### Proffil a Thueddiadau'r Farchnad

#### Sir Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn sir 110 milltir sgwâr o faint llawn amrywiaeth yng nghanol de Cymru, ac mae wedi ei leoli fwy neu lai hanner ffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe ar hyd Coridor yr M4. Mae'n ymestyn o dywod euraid arfordir y de i'r cymoedd glo serth tua'r gogledd ac, fel y cyfryw, gellir ei rhannu'n dri rhanbarth ar wahân yn gyffredinol:

- Rhanbarth yr Arfordir

Mae'r llain arfordirol yn ymestyn o'r dwyrain i'r gorllewin o Ferthyr Mawr i Gynffig, ac mae porthladd bach Porthcawl wedi ei leoli rhyngddynt. Ceir saith bae a thraeth sy'n denu llawer o ymwelwyr yn ystod yr haf ac mae'r arfordir yn boblogaidd ymhlith ymwelwyr lleol drwy'r flwyddyn.

Merthyr Mawr yw'r ddrysfa o dwyni tywod uchaf ond un yn Ewrop ac mae aber Afon Ogwr ar y naill ochr tua'r dwyrain a Phorthcawl ar yr ochr arall tua'r gorllewin.

Mae Porthcawl yn gyrchfan boblogaidd lle ceir promenâd, ffair fawr, harbwr bach a thraethau. Ar un adeg yr oedd yn borthladd a oedd yn gwasanaethu nerth diwydiannol y diwydiannau glo a dur gynt, ond mae'n dref glan môr dawel erbyn hyn, sy'n cynnal digwyddiadau syrffio, cynadleddau Elvis ac yn denu pobl ar eu gwyliau.

Mae Pentref Cynffig wedi ei leoli wrth ymyl Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig, sy'n system o dwyni tywod a llyn sy'n rhan o'r system twyni tywod weithredol fwyaf yn Ewrop. Mae Cynffig wedi ei leoli yn ne-ddwyrain y Sir ac mae'n boblogaidd ymhlith twristiaid ac ymwelwyr lleol. Mae'r warchodfa natur yn safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig ac mae'r llyn yn boblogaidd iawn ymhlith gwylwyr adar.

- Tref Pen-y-bont ar Ogwr

Tref farchnad a chanolfan weinyddol y Sir yw Pen-y-bont ar Ogwr â phoblogaeth o ryw 40,000 o bobl. Mae wedi ei lleoli yn ne-ddwyrain y Sir ac ychydig i'r de o'r M4, sy'n ei gwneud yn ddewis poblogaidd i weithgynhyrchwyr fel Ford, Sony, ac eraill. Ceir parc manwerthu deunydd dylunwyr mawr, Parc McArthur Glen, wrth gyffordd 36 yr M4, gan gynnwys sinema a chwrt bwyd.

- Y Cymoedd

Mae tri chwm Llynfi, Garw ac Ogwr wedi eu lleoli yng ngogledd y Sir. Daw'r rhain i ben yn Sarn ychydig i'r gogledd o'r M4, gan ymestyn i lawr y Sir am ryw saith milltir. Mae'r cymoedd hyn yn dilyn eu hafonydd priodol ac yn gartref i atyniadau ymwelwyr fel Parc Bryngarw a'r llwybrau cerdded a beicio niferus drwy'r cefn gwlad godidog.

Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn hygyrch iawn trwy Goridor yr M4 a'r A48 sy'n cynnig cysylltiadau da i'r rheini sy'n teithio tua'r dwyrain a'r gorllewin drwy'r rhanbarth. Mae Strategaeth Dwristiaeth Sir Pen-y-bont ar Ogwr 2011 - 2016 yn adrodd bod 80% o ymwelwyr yn cyrraedd mewn car, gydag Abertawe a Chaerdydd 30 munud i ffwrdd, a Birmingham a Llundain ryw 2½ awr i ffwrdd. Ceir cysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus da drwy'r Sir gyfan, ond mynegwyd rhywfaint o bryder ynghylch llwybrau rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl, canolfannau poblogaeth mwyaf y sir.

### **Disgrifiad o'r Farchnad**

Gellir rhannu'r farchnad ar gyfer gweithgareddau o fath twristiaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn dri chategori cyffredinol, sef twristiaeth ddiwylliannol, pobl ar eu gwyliau a gweithgareddau awyr agored. Dyma'r prif atyniadau a gynigir i ymwelwyr â'r Sir a'r rhain yw'r sail i ymdrechion lleol i ddenu mwy o ymwelwyr i'r rhanbarth. Fodd bynnag, fel y bydd y dadansoddiad hwn yn ei ddangos, nid atyniadau o'r fath yw'r prif bethau sy'n denu pobl i ymweld â'r ardal, gan fod siopa yn denu deg gwaith yn fwy o ymwelwyr na'r holl atyniadau eraill wedi eu cyfuno.

Yn ôl Visit Britain a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, parhaodd nifer yr ymwelwyr â Chymru i gynyddu yn 2016, yn enwedig ymwelwyr o dramor, a pherfformiodd yn well na gweddill y DU o 20%. Rhagwelir y bydd y tueddiad hwn yn parhau wrth i'r bunt wan barhau i arwain at ymweliadau gan dramorwyr.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhannu'r farchnad darged i'r categorïau canlynol:

- Ymwelwyr dydd o Brydain Fawr (yn ymweld am 4 awr neu fwy)
- Ymwelwyr dros nos o Brydain Fawr (yn aros 1 noson neu fwy)
- Ymwelwyr tramor (yn aros 1 noson neu fwy)

Diffinnir y rhain ymhellach:

- Ymweliadau gwyliau
- Ymweld â ffrindiau a pherthnasau
- Ymweliadau siopa, bwytaï a chlybiau
- Ymweliadau dydd diwylliannol
- Ymweliadau dydd egnïol
- Ymweliadau busnes ac arall

Mae'r farchnad dwristiaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gymharol isel ei phroffil a chaiff y mwyafrif o ymwelwyr hamdden eu denu gan y traethau arfordirol a siopa yn y parc Manwerthu Deunydd Dylunwyr.

Er eu bod yn deillio o sampl fach, yn ôl Visit Britain, mae niferoedd ymwelwyr â Phen-y-bont ar Ogwr wedi codi 55% ers y llynedd, gyda chynnydd mawr o ran gwariant a nifer y nosweithiau a dreuliwyd. Fodd bynnag, caiff hyn ei gydbwysu gan ostyngiad yn hyd cyfartalog arhosiad, sydd wedi gostwng rhyw 6% o'i gymharu â ffigurau 2015.

Er ei fod yn dal yn bwyslais allweddol i'r Cyngor, mae'n eglur bod yr hinsawdd bresennol o gyni cyllidol wedi rhoi pwysau ar wasanaethau, wrth i atyniadau sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol fel Parc Bryngarw gael eu trosglwyddo allan o reolaeth y Cyngor. Mae hyn yn rhoi pwysau ar adnoddau lleol a gallu'r Cyngor i hyrwyddo'r rhanbarth a'r hyn sydd ganddo i'w gynnig.

Yr atyniadau allweddol yn y Sir yw:

- Parc Bryngarw, Parc Natur Parc Slip, Parc Haearn Tondu, Parc Bedford, Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig, Parc Fferm Lakeside
- Parc Manwerthu Deunydd Dylunwyr McArthur Glen
- Ffair Traeth Coney
- Merthyr Mawr, Twyni Cynffig, Traeth Drenewydd yn Notais a thraethau Sandy Bay
- Teithiau Cerdded y Cymoedd, Parc Coedwig Afan, cestyll Margam, Coety a Thregantllo, ac
- Abaty Margam

Mae'r holl atyniadau hyn yn darparu ar gyfer teuluoedd, pobl oedrannus egnïol, unigolion, parau a grwpiau i wahanol raddau. Parc Manwerthu Deunydd Dylunwyr McArthur Glen yw'r man yr ymwelir ag ef fwyaf yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr ac mae'n denu dros 3.5 miliwn o ymwelwyr y flwyddyn. Y traethau a Phorthcawl yw'r atyniad mwyaf nesaf i dwristiaid i'r Sir trwy ddenu rhyw 15,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

### **Marchnad Darged**

At ddibenion y dadansoddiad hwn, mae'r farchnad ar gyfer masnach wedi ei diffinio o ran ymweliadau dydd twristiaid ac ymweliadau nos, sy'n cynnwys arhosiad o un neu fwy o nosweithiau yn y sir.

Mae Tabl 1 yn dangos nifer yr ymweliadau â Phen-y-bont ar Ogwr a'u safle ymysg y 22 o Awdurdodau Lleol ledled Cymru. Cymerwyd y ffigurau a ddefnyddir o Broffiliau Twristiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru a'i siroedd unigol.

**Tabl 1 Ymweliadau Twristiaid â Phen-y-bont ar Ogwr 2010 - 2012**

Disgrifiad	Ymweliadau (miliwn)	Safle (/22)	Nosweithiau (miliwn)	Safle (miliwn)	Gwariant (£miliwn)	Safle (/22)
Ymweliadau dydd o Brydain Fawr	4.48	9	-	-	113	10
Ymweliadau dros nos o Brydain Fawr	0.25	12	0.86	11	41	12
Ymweliadau tramor	0.02	14	0.18	12	8	12
<b>Yr holl ymwelwyr</b>	<b>4.75</b>	<b>9</b>	<b>1.04</b>	<b>11</b>	<b>163</b>	<b>12</b>

Nodiadau: Efallai na fydd y cyfansymiau yn union gywir oherwydd talgrynnu; mae cyfartaleddau Ymweliadau Dydd wedi'u seilio ar ddata 2011 a 2012 yn unig.

Ffynonellau: Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr, Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr, Arolwg Teithwyr Rhyngwladol

Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr gyfanswm cyfartalog o ymweliadau, nosweithiau a gwariant twristiaid. Mae gwariant ar ymweliadau dydd hefyd yn bwysicach i'r Sir ac mae'n uwch yn gymesur na'r hyn a welir yng ngweddill y Sir; mae yn y 9<sup>fed</sup> safle yn y DU ar gyfer ymwelwyr a'r 10<sup>fed</sup> ar gyfer gwario.

Yn ôl y data Proffil, Pen-y-bont ar Ogwr yw'r 4<sup>ydd</sup> man mwyaf poblogaidd i ymwelwyr dydd yng Nghymru, ac mae'r sir yn y 7<sup>fed</sup> safle ar gyfer gwariant a'r 10<sup>fed</sup> ar gyfer gweithgareddau diwylliannol.

**Tabl 2 Gweithgareddau Ymwelwyr 2010 – 2012**

Diben yr Ymweliad	Teithiau (miliwn)	Safle (/22)	Nosweithiau (miliwn)	Safle (/22)	Gwariant (£miliwn)	Safle (/22)
Gwyliau	0.14	11	0.55	11	26	12
Ymweld â ffrindiau a pherthnasau	0.77	14	0.40	11	23	15
Siopa, bwytai a chlybiau	1.40	4	-	-	44	7
Ymweliadau dydd diwylliannol	0.99	10	-	-	23	7
Ymweliadau dydd egnïol	1.42	7	-	-	39	9
Ymweliadau busnes ac arall	0.03	14	0.09	14	9	13
<b>Cyfanswm</b>	<b>4.75</b>	<b>9</b>	<b>1.04</b>	<b>11</b>	<b>163</b>	<b>12</b>

Nodiadau: Efallai na fydd y cyfansymiau yn union gywir oherwydd talgrynnu; mae cyfartaleddau Ymweliadau Dydd wedi'u seilio ar ddata 2011 a 2012 yn unig.

Ffynonellau: Arolwg Ymweliadau Dydd Prydain Fawr, Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr, Arolwg Teithwyr Rhyngwladol

Mae'r rheini sy'n ymweld â ffrindiau a theulu yn gwario mwy na dwywaith yr hyn y mae ymwelwyr diwylliannol ac egnïol yn ei wario ac mae ymwelwyr busnes yn gwario llai yn gyffredinol ond yn cynrychioli gwariant unigol uwch fesul nifer y teithiau a gyflawnir.

Teithiau siopa yw 29% o'r holl ymweliadau yn eu cyfanrwydd ac maent yn cynrychioli 27% o wariant ymwelwyr. Ymweld â ffrindiau a pherthnasau oedd y rheswm am 16% o'r holl deithiau, roedd 21% yn ddiwylliannol ac roedd 30% yn weithgareddau egnïol.

### Tueddiadau Twristiaeth

Bu cynnydd mewn twristiaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn y blynyddoedd diwethaf, wrth i ddata o "Tourist Attractions: Current Trends (2013)" Llywodraeth Cymru yn dangos cynnydd sylweddol mewn twristiaeth ledled Cymru rhwng tymhorau brig yn 2012 a 2013. Mae ffigurau mwy diweddar gan Visit Britain yn dangos bod twristiaeth yng Nghymru wedi cynyddu o 84.1 miliwn yn 2015-16 i 104.6 miliwn yn 2016-17, cynnydd o ryw 24.4%. Mae hyn o'i gymharu â chynnydd cyfatebol o 0.6% ar gyfer Prydain yn ei chyfanrwydd.

**Ffig. 1: Tueddiadau o ran Teithiau Twristiaeth Dros Nos, Nosweithiau a Gwariant ym Mhen-y-bont ar Ogwr 2006-2012**

**Pen-y-bont ar Ogwr: Teithiau (miloedd)**

Busnes ac arall

Ymweld â ffrindiau a pherthnasau

Gwyliau

**Pen-y-bont ar Ogwr: Nosweithiau (miloedd)**

Busnes ac arall

Ymweld â ffrindiau a pherthnasau

Gwyliau

**Pen-y-bont ar Ogwr: Gwariant (£ miliwn)**

Busnes ac arall

Ymweld â ffrindiau a pherthnasau

Gwyliau

O 2008 i 2012, gwelwyd cynnydd mwy cyson mewn twristiaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr nag yng ngweddill Cymru. Mae'r gwariant cyfartalog y noson wedi cynyddu ers y cyfnod 2008-10 ond rhyw fymryn o gynnydd a welwyd yng Nghymru yn ei chyfanrwydd yn ystod yr un cyfnod.



**Tabl 3 Gwariant Cyfartalog Ymwelwyr o Brydain Fawr yn 2011 - 2012**

Disgrifiad	Teithiau (miliwn)	Gwariant (£miliwn)	Gwariant/ Taith (£)
Siopa, bwytaï a chlybiau	0.37	15.54	41.83
Diwylliannol	0.13	2.54	18.89
Egniol, chwaraeon neu debyg	0.27	2.95	11.07
Ymweld â ffrindiau a pherthnasau	0.27	4.99	18.87

Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod gwariant ymwelwyr yn is wrth ymweld â lleoliadau gwledig o'u cymharu ag eraill. Siopa yw'r gwariant mwyaf, bron i bedair gwaith yn fwy na'r gwariant ar weithgareddau egniol.

### Yr Economi Dwristiaeth

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn categoreiddio'r pedwar prif grŵp ar gyfer diwydiannau twristiaeth fel a ganlyn:

- Gwasanaethau llety,
- Gweithgareddau gweini bwyd a diod,
- Gwasanaethau cludo teithwyr, llogi cerbydau ac asiantaethau teithio
- Gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon, hamdden ac arddangos / cynadledda

Dyma'r nodweddion twristiaeth fel y'u diffinnir gan godau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol yn unol â'r diffiniadau eang uchod:

- Gwasanaethau llety (6 chod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol pum digid),
- Gweithgareddau gweini bwyd a diod (7),
- Cludo teithwyr rheilffordd (1),
- Cludo teithwyr ffordd (2),
- Cludo teithwyr dŵr (2),
- Cludo teithwyr awyr (2),
- Llogi offer trafndiaeth (3),
- Asiantaethau teithio a gwasanaethau cadw lle eraill (4),
- Gweithgareddau diwylliannol (7),
- Gweithgareddau chwaraeon a hamdden (6),
- Gweithgareddau arddangos a chynadledda (3).

Yn ôl Proffil Twristiaeth 2011, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn yr 11<sup>eg</sup> safle ar gyfer nifer yr unedau sy'n gwasanaethu'r sector twristiaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, fel canran gymesur o'r holl unedau lleol yn yr ardal, mae gan y Sir gyfran uwch na'r cyfartaledd o unedau mewn 'cludo teithwyr', yn y 5<sup>ed</sup> safle o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn yr 11<sup>eg</sup> safle ar gyfer nifer yr unedau yn y categori bwyd a diod.

**Tabl 4 Pen-y-bont ar Ogwr: unedau lleol mewn Gweithgareddau Nodweddion Twristiaeth 2011**

	Nifer yr unedau lleol yn yr ardal	Safle (/22)	Nifer yr unedau lleol yng Nghymru	% o'r holl unedau lleol yn yr ardal	Safle (/22)	% Dadansoddi Cymru
<b>Diwydiant Twristiaeth</b>						
Gwasanaethau Llety	30	13	1,650	0.7	12	1.5
Gweithgareddau	305	11	7,075	7.5	5	6.4
Gweini Bwyd a Diod						
Gweithgareddau Cludo	65	5	1,225	1.6	4	1.1
Teithwyr a Theithio						
Gweithgareddau	70	18	2,285	1.7	17	2.1
Diwylliannol, Chwaraeon, Hamdden						
Gweithgareddau	470	11	12,235	11.6	10	11.1
Twristiaeth						
<b>Pob Diwydiant</b>	<b>4,045</b>	<b>16</b>	<b>110,625</b>	<b>100.0</b>	<b>-</b>	<b>100.0</b>

### Gwariant Defnyddwyr

Mae Arolwg Gwariant Defnyddwyr Barclays Local Insights 2017 yn dangos sut mae patrymau gwariant ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cymharu â gweddill Cymru. Maent yn mesur gwariant ar draws nifer o sectorau defnyddwyr, sydd fel a ganlyn:

- Trin Gwallt a Harddwch
- Dillad a Chyfwisgoed
- Fferylliaeth a Chynnyrch Cosmetig
- Nwyddau Cyffredinol
- Archfarchnadoedd
- Tanwydd
- Bwyta Allan
- Cynnwys Digidol
- Electroneg

Ystyrir eu hastudiaeth yn bwynt cyfair blaenllaw ac felly fe'i defnyddir at ddibenion dadansoddi ystadegol yma. Defnyddiwyd Nwyddau Cyffredinol fel y categori o wariant defnyddwyr at ddibenion yr adroddiad hwn.

Mae astudiaeth Barclays yn dangos bod gwariant ar nwyddau cyffredinol ym Mhen-y-bont ar Ogwr 4% yn uwch na'r llynedd, er bod mân wahaniaeth negyddol rhwng y ffigurau cyffredinol.

Yn ôl yr arolwg, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn gwario 7% yn llai na chyfartaledd y DU ac mae gwariant Cymru 10% yn llai. Mae eu hastudiaeth yn dangos bod gwariant hamdden wedi cynyddu 15% er bod gwariant cyffredinol wedi gostwng 3.7%. Mae hyn o'i gymharu â gwariant cyfatebol yng Nghymru o -4% a 10% yn eu trefn.

Roedd ymweliadau â siopau yn cymharu'n dda â Chymru gyfan hefyd, gyda 22% o bobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn siopa ar-lein a 78% yn siopa mewn siopau, dim ond -1% yn llai o'i gymharu â Chymru gyfan.

### Marchnad Darged

Gellir rhannu marchnad darged Parc Bryngarw yn dri grŵp craidd; ymwelwyr achlysurol, teithwyr dydd/twristiaid, defnyddwyr â phwrpas penodol. Bydd y cymhellion ar gyfer pob grŵp yn amrywio a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

Ymwelwyr achlysurol	pobl efallai nad ydynt wedi bwriadu ymweld, neu sydd wedi penderfynu ymweld yn ddiweddar, heb unrhyw agenda na diben eglur
Teithwyr dydd /twristiaid	pobl sydd wedi bwriadu ymweld, neu ar eu gwyliau, fel teulu neu bâr fel rheol
Defnyddwyr â phwrpas penodol	pobl sy'n bwriadu prynu nwyddau a gwasanaethau

Bydd is-grwpiau o bobl o fewn pob grŵp, fel plant er enghraifft, sy'n ddylanwadwyr ac a all benderfynu ar beth y mae pobl yn gwario eu harian.

O ystyried natur amrywiol y cynhyrchion a gynigir (anrhegion, bwyd, garddio ac ati), bydd y patrymau gwario yn amrywio o grŵp i grŵp. Bydd y tywydd yn chwarae rhan fawr ym mhatrymau gwario defnyddwyr hefyd, a digwyddiadau yn yr un modd, digwyddiadau hyrwyddo a'r tymhorau. O gofio hyn, argymhellir bod patrymau gwario hanesyddol yn cael eu cofnodi a'u casglu dros gyfnod o amser er mwyn gallu mireinio strategaethau priodol wrth gasglu data. Bydd hyn yn helpu i lywio rhagolygon hirdymor, gweithgareddau gwerthu ac ymdrechion marchnata.

### Dadansoddi Cystadleuwyr

Cyfngwyd y dadansoddiad cystadleuwyr i Sir Pen-y-bont ar Ogwr, er y derbynnir bod nifer o leoliadau a chyrchfannau ymhellach i ffwrdd a fyddai'n cystadlu am bobl sy'n teithio i'r ardal, er ei bod yn annhebygol y byddai hyn yn effeithio'n sylweddol ar niferoedd cyffredinol yr ymwelwyr, oni bai ei fod yn ddigwyddiad penodol.

Mae'r rhestr ganlynol o gystadleuwyr yn gymhariaeth gyfatebol o Barc Bryngarw sydd yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr a'r cyffiniau. Nid yw bwyta, tafarndai a chaffis lleol eraill wedi eu cynnwys gan na fyddant yn cystadlu am yr un fath o ymwelwyr cyrchfan sydd wedi teithio i'r Parc yn unswydd.

### Dadansoddi Cystadleuaeth

Sgôr: 1 = isel .... 5 = uchel

Enw	Disgrifiad	Bygythiad	Sgôr
Gwarchodfa Natur Genedlaethol Merthyr Mawr, Pen-y-bont ar Ogwr	Twyni tywod, coetir twyni. Anaddas i gadeiriau olwyn a bygis.	Ceir cyfyngiadau i ymwelwyr â phlant ifanc a defnyddwyr cadair olwyn ac felly mae'r bygythiad yn gymedrol	4
Gwarchodfa Natur Parc Slip, Pen-y-bont ar Ogwr	300 erw o goetir, glaswelltir a gwlyptiroedd. Gweithgareddau, mynediad rhwydd i bobl anabl.	Mae'r atyniad hwn yn fygythiad uniongyrchol i Barc Bryngarw gan ei fod yn cynnig llwybrau cerdded, gweithgareddau a siop a chaffi ac yn darparu parcio am ddim.	5
Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cynffig, Pen-y-bont ar Ogwr	Llwybrau cerdded, yn arwain at draeth	Nid oes unrhyw gyfleusterau ar y safle ond ceir nifer o dafarndai a bwyta lleol wrth deithio mewn car. Mae ei leoliad anghysbell a'i bellter o Fryngarw yn golygu mai prin yw'r effaith y mae'n ei chael ar y Parc, ond mae'n boblogaidd ymhlith pobl sy'n mynd â'u cŵn am dro.	3

Parc Calon Lan, Pen-y-bont ar Ogwr	Llwybrau cerdded a beicio a dau lyn.	Mae'n cynnig rhai cyfleusterau tebyg, fel Canolfan Ymwelwyr, felly mae'n fygythiad canolog.	<b>3</b>
Parc ac Amgueddfa Cyfarthfa, Merthyr Tudful	Tir parc, amgueddfa, castell, oriel, trê'n bach a mannau chwarae.	Atyniad poblogaidd sy'n cynnal digwyddiadau rheolaidd sydd â chyfleusterau tebyg iawn i Barc Bryngarw.	<b>5</b>
Canolfan Ymwelwyr Garwnant, Merthyr Tudful	Llwybrau cerdded, llwybrau pos, llwybr hygyrch, llwybrau beicio mynydd a man sgiliau, man chwarae.	Ceir caffi ar y safle ynghyd â chyfleusterau picnic, gweithgareddau i blant, canolfan ymwelwyr a lleoedd parcio.	<b>5</b>
Parc Ynysangharad, Pontypridd	Parc coffa'r rhyfel, pwll nofio, man chwarae, golff, golff byr, lawntiau bowlio, tennis, pêl-droed, lleiniau criced, dosbarthiadau ymarfer corff i bob oed a rhaglen o ddigwyddiadau.	Er bod y pwyslais ar chwaraeon, ceir nifer o weithgareddau mwy cyffredinol sy'n apelio i deuluoedd.	<b>4</b>
Parc Gwledig Barry Sidings, Pontypridd	Llwybrau, trac BMX, meysydd chwarae, pwll hwyaid, llwybrau beicio. Yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn a bygis.	Ceir agweddau tebyg iawn rhwng Parc Bryngarw a'r atyniad hwn. Mae eu caffi tymhorol ar agor yn ystod misoedd yr haf yn unig, ond maent yn cynnal nosweithiau barbeciw arbennig ac yn cynnal digwyddiadau teuluol.	<b>5</b>
Parc Margam, Port Talbot	Pentref Chwedlau Plant, rheilffordd gul, llwybr fferm, castell, gerddi, taith gwyllo ceirw, beicio, canolfan ymwelwyr a digwyddiadau.	Mae hwn yn atyniad mawr ag amrywiaeth eang o weithgareddau i ymwelwyr. Neilltuir lle ar gyfer consesiynau masnachol hefyd.	<b>5</b>
Parc Coedwig Afan, Port Talbot	Beicio mynydd, beicio, cerdded, canolfan ymwelwyr.	Er bod y pwyslais ar feicio a cherdded, ceir caffi, siop a lleoedd parcio.	<b>4</b>
Once Upon a Playtime, Pen-y-bont ar Ogwr	Canolfan chwarae dan do sy'n cynnig strwythur chwarae antur 3 llawr â phwyslais addysgol. Mae wedi ei leoli yn agos at orsaf drenau Pen-y-bont ar Ogwr yn agos i'r dref.	Er nad yw'n fygythiad uniongyrchol, bydd yn cystadlu am blant ifanc ac yn denu'r rheini sy'n dymuno osgoi bod allan mewn tywydd garw neu'n ceisio lladd awr neu ddwy gyda'u plant. Mae ffioedd mynediad yn amrywio o £1.50 i £5.75	<b>3</b>

Canolfannau Halo <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sir Pen-y-bont ar Ogwr</li> <li>• Canolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr</li> <li>• Canolfan Bywyd Cwm Garw</li> <li>• Pwll Nofio Maesteg</li> <li>• Canolfan Chwaraeon Maesteg</li> </ul>	Cyfleusterau chwaraeon ar draws y Sir a drosglwyddwyd allan o reolaeth yr Awdurdod Lleol gan gynnwys gweithgareddau nofio ac eraill sy'n ymwneud â chwaraeon.	Byddant yn cystadlu am rai gweithgareddau, yn enwedig o ran plant sy'n mynychu gweithgareddau chwaraeon strwythuredig. Fodd bynnag, mae'n wahanol farchnad ac er bod mynediad am ddim, mae ffioedd y gweithgareddau yn weddol uchel.	<b>3</b>
---	---	--	----------

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canolfan Bywyd Cwm Ogwr</li> <li>• Pwll Nofio Pencoed</li> <li>• Pwll Nofio y Pîl</li> <li>• Pwll Nofio Ynysawdre</li> </ul>			
Parc Bedford, Pen-y-bont ar Ogwr	Hen waith haearn arall yw Parc Bedford sydd wedi ei leoli mewn 40 erw o dir. Mae'r tir yn dychwelyd i natur a cheir llwybrau beicio a mannau chwarae i blant. Gellir parcio am ddim.	Fel man lleol i fynd gyda phlant, mae hwn yn cynrychioli bygythiad mwy, er nad oes unrhyw gyfleusterau.	<b>3</b>
Fferm Wiggleys	Atyniad i deuluoedd â man chwarae mawr, siop, caffi, man picnic, reidiau, ystafelloedd parti, anifeiliaid a maes parcio mawr.	Mae hwn yn fygythiad mawr gan fod llawer i ymwelwyr ei wneud. Fodd bynnag, maent yn codi ffi mynediad, a allai atal rhai ymwelwyr.	
Parc Fferm Lakeside, Pen-y-bont ar Ogwr	Parc fferm â chyfleusterau i'r gogledd yn lleoliad Lakeside lle mae canwio a gweithgareddau eraill ar gael. Ceir parc carafanau i'r de.	Mae'r rheini sy'n aros yn y parc carafanau yn fwy tebygol o fynd yno. Ni wŷr nifer yr ymwelwyr ond mae'r llyn yn eithaf bach felly gallai nifer yr ymwelwyr fod yn gyfyngedig.	<b>2</b>

## 2.6 Brandio

### a) Stori Bryngarw

Credir bod Tŷ Bryngarw wedi ei adeiladu yn y 15<sup>fed</sup> Ganrif ond fe'i cofnodwyd gyntaf pan y'i rhoddwyd i Frances Traherne yn anrheg priodas gan ei brawd John ym 1775. Bu'r teulu Traherne yn byw yn y tŷ tan y 1940au wedyn, gan ddatblygu'r gerddi a'r tŷ nes i'w disgynnydd, Capten Onslow Powell Traherne, ei werthu i'r gŵr busnes lleol R. S. Hayes a fu'n byw ynddo tan ei farwolaeth ym 1959. Fe'i caffaelwyd gan y cyngor lleol wedyn ac fe'i defnyddiwyd fel tai Awdurdod Lleol tan 1980 pan ddynodwyd y safle yn barc gwledig. Dechreuodd gwaith ail-hawlio ym 1982 ac agorwyd y Parc i'r cyhoedd ar 23 Mai 1986.

### b) Hanes hyd yn hyn

Trosglwyddwyd Parc Bryngarw o reolaeth yr Awdurdod Lleol ym mis Hydref 2015 ac mae wedi ei ddatblygu'n barhaus ers hynny. Cyn ei drosglwyddo, cafodd y Parc ei ailwampio gydag arian yr UE i droi Tŷ Bryngarw yn westy 19 ystafell wely a bwyty. Rheolir y Tŷ erbyn hyn gan gwmni arlwyo, priodasau a digwyddiadau 5 Star sy'n gweithredu o dan les i Awen, sy'n meddiannu'r tai allan cyfagos tua'r cefn.

Datblygwyd y ganolfan ymwelwyr a'r caffi yn 2012, ac mae swyddfa'r Parcmon, cyntedd arddangos, ystafell ddosbarth/digwyddiadau, a thoiled i bobl anabl wedi eu lleoli yno hefyd, ac mae'r caffi wedi ei reoli'n breifat gan Cedars o dan gytundeb les ar wahân.

### c) Y weledigaeth a'r genhadaeth

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn datgan *“Ein pwrpas yw **Gwella Bywydau Pobl** trwy ddarparu gofod a chyfle i bobl fwynhau profiadau diwylliannol bywiog sy'n ysbrydoli a gwella eu synnwyr o les”*.

Diffinnir eu gwerthoedd ymhellach fel a ganlyn:

- CREADIGOL

Rydym yn ystyried ffyrdd ffres, creadigol i ddal i wella'r hyn a wnawn a sut rydym yn ei wneud. Rydym yn cefnogi arloesedd ac rydym yn ymatebol i'r byd cyfnewidiol o'n cwmpas.

- CYDWEITHREDOL

Rydym yn rhagweithiol wrth ddatblygu perthnasau positif yn fewnol ac yn allanol gyda chydweithwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid.

- GRYMUSOL

Rydym yn grymuso pobl i gyflawni eu potensial ac yn peri i bethau da ddigwydd.

- TEG

Rydym yn ymdrechu i fod yn deg ym mhopeth a wnawn ac yn ein parchu ein gilydd a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mewn blwyddyn arferol gallwn ddisgwyl mwy nag 1 miliwn o ymwelwyr/defnyddwyr i'n gwasanaethau a dynnir o bob rhan o'r fwrdeistref sirol ac ymhell y tu hwnt.

ch) Hanes moesegol, yr effaith ar gymdeithas

Mae Parc Bryngarw, trwy B-Leaf a Wood-B, yn cynnig cyfleoedd hyfforddi i bobl ag anawsterau dysgu. Trosglwyddwyd y ddau wasanaeth hyn allan o'r Awdurdod Lleol pan dderbyniwyd y Parc gan Awen yn 2015. Mae Awen yn awyddus i ehangu'r gwasanaethau a ddarperir a datblygu hyfforddiant gweithle a chynnydd ac mae eisoes wedi dechrau darparu hyfforddiant trwy drefniant partner ag Asiantaeth Cyflogaeth â Chymorth Elite.

Ceir mentrau eraill sydd wedi helpu i ddatblygu unigolion, sy'n cynnwys:

- Cynyddu gweithgarwch marchnata gan gynnwys codi proffil cyfleoedd hygyrchedd, cyfleusterau a chymhorthion yn y Parc
- Mabwysiadu cynllun HYNT sy'n cynnig tocynnau am ddim i bobl ag anabledau a gofawyr ar gyfer perfformiadau a digwyddiadau
- Gweithio gydag Asiantaeth Gwaith â Chymorth Elite i ddatblygu cynlluniau hyfforddi ar gyfer hyfforddeion i'w darparu trwy B-Leaf a Wood-B, gan greu hyfforddiant, sesiynau rhoi cynnig ar brofiad gwaith, a chynyddu lleoedd i hyfforddeion ar raglenni presennol
- Creu mwy o gyfleoedd hyfforddi a sesiynau rhoi cynnig ar brofiad gwaith i oedolion ag anabledau ar draws Ymddiriedolaeth Awen
- Cynnal diwrnod agored i rieni/gofawyr
- Cynnal noson wobrwyo i gydnabod llwyddiant hyfforddeion

d) Marchnata

Mae Awen yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu strategaeth farchnata gref ac maent wrthi'n datblygu cynllun gweithredu Marchnata a Datblygu ar hyn o bryd. Hefyd, cynhaliwyd adolygiad brandio, cynhaliwyd gweithdai brandio â'r staff, a gwnaed cais am grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer symud eu systemau marchnata i blatfformau digidol.

Ceir meysydd posibl ar gyfer marchnata a allai wella profiad yr ymwelydd ac arwain at werthu mwy. Mae'r rhain yn cynnwys:

- labelu planhigion drwy'r parc cyfan sy'n cyfeirio ymwelwyr at B-Leaf lle gallant brynu un eu hunain,
- defnyddio arwyddion yn y Parc i roi gwybodaeth i ymwelwyr a chyfeirio cerddwyr at B-Leaf,
- cynyddu amlygrwydd a defnydd platfformau cyfryngau cymdeithasol a chynnwys cyfeiriadau atynt ar arwyddion, taflenni gwybodaeth, penawdau llythyron, cardiau busnes, ac ati, yn ogystal â'u dangos yn fwy blaenllaw ar y wefan ac efallai ystyried gwobrwyo am ail-drydar, ail-bostio, rhannu a hoffi, a phlatfformau rhannu eraill,

- datblygu clybiau plant, clybiau garddio, clybiau cinio, ac ati, a/neu becynnau aelodaeth â buddion (gostyngiadau, cynigion arbennig, ac ati) er mwyn helpu i annog ymweliadau lluosog a hysbysebu ar lafar.

#### dd) Hunaniaeth gorfforaethol a brandio

Fel y nodwyd uchod, mae Awen wrthi'n adolygu ei brandio a'i delwedd. O ystyried y potensial ar gyfer datblygu cynhyrchion ym Mryngarw, dylid archwilio'r cyfleoedd ar gyfer deunydd pacio yn gynnar, yn enwedig yn B-Leaf lle mae labelu mor hollbwysig i'r profiad prynu.

#### e) Cysylltiadau cyhoeddus a chyhoeddusrwydd

Rheolir cysylltiadau cyhoeddus trwy Dîm Marchnata a Datblygu Awen ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw strategaeth benodol hysbys yn llywodraethu cysylltiadau cyhoeddus er bod profiad sylweddol yn y tîm rheoli i reoli hyn.

#### f) Presenoldeb ar y rhyngwrwyd

Cynhelir presenoldeb Parc Bryngarw ar y we ar wefan Awen sy'n cynnwys cod lliw i wahaniaethu rhwng safleoedd eraill Awen. Mae gan y Parc 12 o dudalennau wedi eu neilltuo gan ddefnyddio thema Awen werdd sy'n fodern, yn helaeth ac wedi ei dylunio'n dda. Er eu bod yn hawdd eu llywio, mae'r elfennau cyfryngau cymdeithasol yn fach ac nid ydynt yn amlwg ar unwaith. Ceir panel mawr yn dangos ffrydiau Facebook ar y dudalen Hafan, ond mae'n rhaid i'r defnyddiwr sgorlio i lawr y dudalen i'w weld. Bydd angen i dudalennau Parc Bryngarw adlewyrchu pwysigrwydd cynyddol platfformau cyfryngau cymdeithasol, yn enwedig wrth i fynediad at y rhyngwrwyd gan ddefnyddio dyfeisiau symudol barhau i gynyddu.

## 2.7 Dadansoddi a Rheoli Risg

Gellir cymharu'r risgiau ar gyfer unrhyw un o'r opsiynau manwerthu a nodir yn yr adroddiad hwn â'r rheini sy'n berthnasol i fusnesau eraill ac, yn yr un modd â busnesau eraill, maent yn her feunyddiol. Fodd bynnag, trwy reoli risg yn dda, gall gael effaith gadarnhaol iawn trwy roi'r wybodaeth a'r modd i reolwyr gryfhau eu busnesau a'u paratoi ar gyfer y dyfodol.

Cyfyngwyd risg i'r cynigion manwerthu yn unig ar gyfer yr adroddiad hwn, ac er y gallai fod cydberthynas â risgiau eraill i'r Parc, nid ydynt yn cael eu trafod yma.

### Rheoli Argyfwng Arian Parod

Yn yr un modd ag unrhyw fusnes, ac ar gyfer unrhyw un o'r opsiynau manwerthu a gyflwynir, bydd yn angenrheidiol datblygu polisiâu a gweithdrefnu da i reoli trosiant a llifoedd arian parod negyddol. Er enghraifft, gallai mesurau i reoli hyn gynnwys casglu cronfeydd brys o drosiant neu sicrhau bod capasiti digonol o ran unrhyw fenthyg.

### Yswiriant

Tybir y bydd yr holl yswiriant perthnasol yn cael ei reoli gan Awen yn ganolog. Dylid nodi y gall darpariaethau arbennig fod yn berthnasol os yw Wood-B yn derbyn cwsmeriaid, o'r safbwynt ei fod yn weithdy sy'n llawn offer a chyfarpar trydanol.

### Sgiliau a Phrofiad

Deallir bod rhywfaint o brinder sgiliau manwerthu er bod prosesau recriwtio diweddar i'r Parc wedi dechrau mynd i'r afael â hyn. Bydd y tîm gweithredol yn rhoi sylw i'r bwch sgiliau masnachol ar sail anghenion a disgwylir y bydd unigolion addas yn cael eu recriwtio ar gyfer unrhyw opsiynau manwerthu a weithredir.

## Matrics Risg

**ENW** Parc Bryngarw **AMCAN** Cynnig Manwerthu

Effaith Risg: 1 = Isel 5 = Uchel

<b>OPSIWN</b>	<b>DISGRIFIAD</b>	<b>EFFAITH RISG</b>	<b>RISG</b>	<b>LLINIARU</b>
Opsiwn 1	Troi'r Ganolfan Ymwelwyr yn lleoliad manwerthu.	1	<ul style="list-style-type: none"> <li>- ½ diwrnod o gynllunio</li> <li>- ½ diwrnod o weithredu</li> <li>- Cost rhai silffoedd/ unedau arddangos, til a phwyntiau trydanol.</li> <li>- Trin arian parod</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Gellir ei ddychwelyd i'r defnydd presennol yn rhwydd gyda fawr ddim ymdrech na chost.</li> <li>- Bydd angen i weithdrefnau trin arian parod fod ar waith.</li> </ul>
Opsiwn 2	Datblygu cynnig manwerthu newydd yn B-Leaf gan gynnwys cyfnerthu Wood-B gan ddefnyddio caniatâd cynllunio (wedi'i ail-bwrpasu).	4	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Costau adeiladu sylweddol gan y bydd Wood-B angen system awyru yn ogystal â symud offer a stoc bresennol.</li> <li>- Buddsoddiad cyfalaf isel.</li> <li>- Tarfu yn sgil gwaith adeiladu yn B-Leaf.</li> <li>- Tarfu i ymwelwyr.</li> <li>- Tarfu i wenywyr.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cynllunio cadarn yn ofynnol gyda'r cymorth proffesiynol priodol (pensaer, rheolwr prosiect, ac ati)</li> <li>- Lefelau priodol o fuddsoddiad cyfalaf i sicrhau llwyddiant y prosiect.</li> <li>- Gellid trosoli cyllid yn erbyn y gost adeiladu derfynol.</li> <li>- Gweithdrefnau manwl i helpu i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl.</li> <li>- Arwyddion da ac ymgyrch wybodaeth barhaus.</li> <li>- Ymgynghori cynnar a pharhaus â'r gwenynwyr.</li> </ul>
Opsiwn 3	Ailddatblygu'r Ganolfan Ymwelwyr a'r llwybr a'r bloc toiledau nesaf ati.	4	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cost cymharol uchel i ailddatblygu'r Ganolfan Ymwelwyr a'r bloc toiledau nesaf ati.</li> <li>- Bydd angen toiledau dros dro trwy gydol y gwaith adeiladu.</li> <li>- Dim mynediad at yr ystafell ddosbarth yn ystod y gwaith adeiladu.</li> <li>- Bydd mynediad llwybr troed at y Parc, B-Leaf a'r Tŷ yn cael ei rwystro.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Sicrhau cyfalaf priodol ar gyfer y prosiect.</li> <li>- Rheoli prosiect cadarn.</li> <li>- Bloc toiledau dros dro.</li> <li>- Gellid defnyddio adeilad parod dros dro ar gyfer gweithgareddau dosbarth os oes angen.</li> <li>- Mynediad amgen at y Parc i'r dde ac i'r cefn o'r Ganolfan Ymwelwyr.</li> </ul>



Opsiwn 4	Adeiladu lle manwerthu pwrpasol nesaf at y Ganolfan Ymwelwyr bresennol ar un pen i'r maes parcio.	3	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Bydd angen lefelau sylweddol o fuddsoddiad.</li> <li>- Tarfu'n debygol i'r Parc, y maes parcio a'r Ganolfan Ymwelwyr.</li> <li>- Gall effeithio ar gynllun y maes parcio a thirweddu o gwmpas y Ganolfan Ymwelwyr.</li> <li>- Bydd angen rheolaeth gadarn ac adnoddau sylweddol.</li> <li>- Bydd angen cynllunio dichonoldeb/ busnes manwl.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Sicrhau cyfalaf priodol ar gyfer y prosiect.</li> <li>- Darparu gwybodaeth a datblygu cynlluniau traffig a symudiad pobl.</li> <li>- Sicrhau bod asesiad effaith yn ystyried holl elfennau'r Parc.</li> <li>- Dyrannu adnoddau priodol i'r prosiect.</li> <li>- Comisiynu adroddiadau manwl yn ôl y gofyn.</li> </ul>
Opsiwn 5	Strwythur math ciosg bach ar gyfer byrbrydau, lluniaeth ysgafn a diodydd.	2	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Mae'r strwythur yn hygyrch ac yn ddiogel.</li> <li>- Diogelwch, storio a thrin deunyddiau darfodus.</li> <li>- Pŵer a chyfleustodau, gan gynnwys dŵr a gwastraff.</li> <li>- Sbwriel.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Bydd angen asesu'r broses o adeiladu'r strwythur a'i leoliad.</li> <li>- Cedwir deunyddiau darfodus mewn oergell bob amser.</li> <li>- Cyfleustodau yn cael eu cynllunio a'u gosod gan gontractwyr proffesiynol.</li> <li>- Darperir biniau digonol ac mae gweithdrefnau rheoli sbwriel ar waith.</li> </ul>
Opsiwn 6	Datblygu cynnig manwerthu yn B-Leaf.	2	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Arwyddion annigonol yn arwain at ffigurau gwerthu gwael.</li> <li>- Trin arian parod.</li> <li>- Rhyngweithio rhwng y cwsmeriaid a'r hyfforddeion.</li> <li>- Cadwyn gyflenwi.</li> <li>- Rheoli gweithredol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Gwella arwyddion a sicrhau bod marchnata'n addas.</li> <li>- Defnyddio polisïau a gweithdrefnau trin arian parod cadarn.</li> <li>- Sicrhau y darperir hyfforddiant gwasanaeth cwsmeriaid da.</li> <li>- Rhoi polisïau a gweithdrefnau rheoli'r gadwyn gyflenwi ar waith.</li> <li>- Sicrhau bod y setiau sgiliau priodol yn bresennol ar gyfer rheolaeth o ddydd i ddydd.</li> </ul>

### 3. Gwerthuso Opsiynau

Mae'r opsiynau a gyflwynir isod yn cynnig amlinelliad o'r potensial ar gyfer manwerthu ym Mharc Bryngarw. Er nad yw'n rhestr hollgynhwysol, maent yn opsiynau y gellid eu cyflawni yng nghydestun y Parc, Awen a'i bortffolio ehangach. Hefyd, derbynnir bod gan Awen safleoedd manwerthu ar draws y grŵp eisoes ac y gellir cymhwyso llawer iawn o wybodaeth a phrofiad yn y rhain i gynnig manwerthu ym Mharc Bryngarw.

#### 3.1 Strwythurau Cyfreithiol Newydd

Er mwyn pennu'r gofynion strwythurol ar gyfer llywodraethu i unrhyw gynnig manwerthu posibl, roedd angen archwilio sut y mae'r Parc yn cael ei reoli ar hyn o bryd a datblygu dealltwriaeth o hyn.

Ar hyn o bryd, rheolir Parc Bryngarw, B-Leaf a Wood-B gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen sydd â strwythur rheoli cryf yn rheoli llawer o leoliadau, llyfrgelloedd a safleoedd eraill ar draws Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr.

O ystyried lefel yr arbenigedd a sgiliau masnachol o fewn Awen, teimlwyd nad oedd angen unrhyw strwythurau llywodraethu cyfreithiol newydd yng nghydestun yr adroddiad hwn ac nad oes angen sefydlu unrhyw gyrff corfforedig newydd.

#### 3.2 Masnachfaint

Mae un opsiwn a awgrymwyd ar gyfer Parc Bryngarw yn cynnwys gwahodd neu sefydlu safle masnachfaint. Mae hyn yn cyflwyno nifer o bosibiliadau a gallai fod ar ffurf siop goffi neu safle o fath ciosg bwyd cyflym.

Mae gan Awen a'r Parc athroniaeth foesegol gref iawn sy'n cefnogi tyfwyr a chynhyrchwyr lleol. Hefyd, mae brand y Parc yn ymestyn i'r amgylchedd naturiol a byw a gweithio mewn cytgod ag ef. Mae'r dull hwn yn cyfyngu'r opsiynau ac o'r 50 masnachfaint fwyd orau yn y DU canfuwyd mai dim ond siopau coffi oedd yn addas, ond nid yw nifer yr ymwelwyr nad ydynt ar benwythnosau ac mewn digwyddiadau yn bodloni niferoedd ymwelwyr gofynnol unrhyw un o'r masnachfreintiau.

#### 3.3 Llogi

Mae'r potensial i logi lle i ddarparwyr eraill yn bodoli ond bydd angen ei reoli a'i fonitro yn ofalus. Mae'r caffi presennol wedi tynnu sylw at yr angen i gynnwys athroniaethau'r Parc mewn cytundebau i sicrhau bod ymwelwyr yn derbyn neges gyson ar draws brand Awen.

Bydd angen ymchwilio i hyn ymhellach gan nad oedd unrhyw ddarparwyr priodol wedi eu canfod ar yr adeg ysgrifennu. Efallai y bydd angen strategaeth o hysbysebu a datblygu ar y cyd o bosibl er mwyn archwilio hyn yn fanylach.

#### 3.4 Modelau Eraill

Efallai y bydd yn bosibl archwilio cydweithrediad rhwng y Parc a sefydliadau addysgol, neu sefydliadau eraill sy'n ategu ethos y Parc, fel Vision 21, sy'n fenter gymdeithasol ag amcanion cymdeithasol tebyg.

### 3.5 Opsiynau Manwerthu

Mae'r arbenigedd gan Awen i ddatblygu strategaeth farchnata i archwilio nifer o gyfleoedd masnachol posibl o fewn y Parc. Mae rhai cyfleoedd manwerthu allweddol ym Mharc Bryngarw yn cynnwys:

- Datblygu siop yn y Ganolfan Ymwelwyr.
- Caban pwrpasol ar gyfer siop a Chanolfan Ymwelwyr
- Safle o fath ciosg yn y man chwarae.
- Ciosg i'r gogledd o B-Leaf.
- Gwerthu lluniaeth yn B-Leaf o gwpwrdd oer.
- Datblygu bar byrbrydau yn B-Leaf.

Cyflwynir yr opsiynau canlynol i ddangos amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer manwerthu ym Mharc Bryngarw a bydd angen amser ac ymdrech arbennig er mwyn gwireddu unrhyw un ohonynt yn llawn. Nid oes unrhyw duedd tuag at opsiwn penodol a derbynir y bydd y diwydrwydd dyledus priodol yn cael ei wneud cyn unrhyw ymgymriad.

Dylid nodi bod llawer o'r opsiynau hyn eisoes yn cael eu gweithredu ar yr adeg ysgrifennu yn rhan o dwf parhaus Parc Bryngarw.

<b>OPSIWN</b>	<b>CYNNIG</b>	<b>SEFYLLFA BRESENNOL</b>	<b>YSTYRIAETHAU</b>
<b>Opsiwn 1</b>	<p>Troi'r Ganolfan Ymwelwyr bresennol yn lleoliad manwerthu.</p> <p>Mae hon yn dasg gymharol syml sy'n gofyn am rywfaint o ddodrefn manwerthu ac ad-drefnu'r lle.</p> <p>Mae'n bosibl y gallai cynnig manwerthu bach yn y ganolfan ymwelwyr gael ei staffio gan barcmyn pe baent yn adleoli eu lle gwaith i ran gyhoeddus y ganolfan ymwelwyr. Bydd hyn yn cynnig persona mwy agored i gwsmeriaid i'r cyhoedd. Bydd eitemau i'w gwerthu yn dod o B-Leaf, Wood-B a chynhyrchwyr lleol eraill i ategu gwerthoedd ac athroniaeth y parc.</p>	<p>Fe'i defnyddir ar gyfer gweithgareddau dysgu a digwyddiadau poblogaidd ar hyn o bryd a cheir mynediad a rennir i gaffi The Cedars, toiled i bobl anabl a swyddfa'r Parcmyr.</p> <p>Mae rhai eitemau yn cael eu gwerthu ond mae hyn yn fwy o arddangosfa na math o fanwerthu gan nad oes unrhyw un yn ei staffio ac nid oes ffordd eglur o dalu am eitemau.</p> <p>Ceir panel consertina y gellir ei ddefnyddio i wahanu'r ystafell ddosbarth o'r cyntedd i gynnig lle ar gyfer dosbarthiadau, cyfarfodydd a digwyddiadau eraill.</p>	<p>- Bydd angen ystyried y dewis o eitemau i'w gwerthu yn ofalus o gofio y gallai fod yn rhaid i arddangosfeydd fod yn hyblyg yn y lle sydd ar gael.</p> <p>- Bydd angen ystyried symudiad a llif pobl yn yr arddangosfeydd ac o'u cwmpas o ran mynediad i blant a chadeiriau olwyn.</p> <p>- Bydd angen arddangos arwyddion yn ymwneud â chŵn, gwerthu a thalu wrth y fynedfa.</p> <p>- Os bydd y cynllun manwerthu yn tyfu'n sylweddol, efallai y bydd angen ystyried trefniadau eraill ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gweithgareddau.</p> <p>- Bydd angen ystyried y mynediad a rennir at y toiledau i bobl anabl, mynedfa'r caffi a chefn yr adeilad. Gellid defnyddio dulliau fel Asesiad Risg Siopau yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch er mwyn helpu i gadw'r safle wedi ei reoli'n dda a risgiau'n isel.</p> <p>- Pan fydd y drysau consertina ar gau, gallai'r cyntedd fod yn brysur iawn ac felly bydd angen ystyried cynllun y</p>

desgiau symudol,  
arddangosfeydd manwerthu a  
hysbysebion.

## Opsiwn 2

Datblygu cynnig manwerthu newydd a chyd-nerthu safle B-Leaf a chyd-nerthu Wood-B.

Derbyniwyd caniatâd cynllunio yn flaenorol ar safle B-Leaf ar gyfer cynlluniau i adleoli Wood-B i'r Parc. Gellid ail-bwrpasu'r caniatâd hwn i gynnwys datblygu safle manwerthu ar gyfer y Parc gan greu lle i Wood-B.

Gallai'r opsiwn hwn fod yn arbediad mawr o ran y gost o redeg Wood-B o safle ar wahân a byddai'n cyflwyno cyfleoedd ychwanegol ar gyfer hyfforddeion a chyfleoedd cyflogaeth mwy cyffredinol ar y safle.

- Mae'r caniatâd cynllunio presennol yn benodol i adleoli Wood-B.

- Mae ardal ddatblygu arfaethedig y safle wedi gordyfu ar hyn o bryd ac fe'i defnyddir i storio llawer iawn o wastraff garddwriaethol o'r Parc.

- Nid yw mynediad at y rhan hon o'r Parc yn amlwg ac, er y bu rhai newidiadau diweddar i arwyddion, mae angen eu gwella o hyd.

- Bydd angen cynnal ymchwiliad i'r caniatâd cynllunio a'i ail-bwrpasu ar gyfer manwerthu. Bydd angen addasu cynlluniau i ystyried newidiadau i strategaethau ers ystyried y cynnig gwreiddiol.

- Byddai angen asesu mynediad, parcio a'r rhyngweithio rhwng hyfforddeion B-Leaf a'r cyhoedd.

- Bydd hyn yn gofyn am reoli prosiect cadarn, cynllunio a buddsoddiad sylweddol.

- Bydd angen ystyried nifer yr ymwelwyr ac arwyddion drwy'r Parc cyfan gan fod B-Leaf wedi ei guddio ac nid yw mynediad yn amlwg.

- Bydd denu ymwelwyr i'r safle yn gofyn am ymdrechion marchnata pwrpasol a bydd angen iddynt ystyried lleoliad B-Leaf ac unrhyw gynnig manwerthu posibl yno.

## Opsiwn 3

Ailddatblygu'r Ganolfan Ymwelwyr a'r llwybr a'r bloc toiledau nesaf ati.

Ceir cyfle i gyfuno'r Ganolfan Ymwelwyr â'r bloc toiledau nesaf ati a defnyddio'r mynediad at y pwll, y tŷ a gweddill y Parc fel sianel drwy'r siop. Bydd hwn yn gynllun mwy sylweddol a fydd yn gofyn am newidiadau strwythurol i'r Ganolfan Ymwelwyr ac yn golygu symud mynediad at y toiledau i'r llain o dir nad yw'n cael ei defnyddio ar yr ochr gyferbyn i'r bloc toiledau.

Llwybr agored rhwng y Ganolfan Ymwelwyr a'r toiledau.

- Bydd yr opsiwn hwn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol ar gyfer costau adeiladu a dylunio.

- Bydd angen ystyried y Ganolfan Ymwelwyr a sut y bydd yn cael ei chynnwys yn y cynllun.

- Efallai y bydd angen ail-ddylunio'r brif fynedfa.

- Gallai'r cynllun gynnwys newidiadau i fynedfa'r maes parcio.

- Bydd angen ystyried pobl nad ydynt eisiau defnyddio'r siop i gael mynediad at y Parc, fel beicwyr a'r rheini sy'n mynd â'u cŵn am dro.

**OPSIWN**  
**Opsiwn 4**

**CYNNIG**

Adeiladu lleoliad manwerthu pwrpasol nesaf at yr adeilad presennol ym mhen uchaf y maes parcio.

Gan ddefnyddio sgiliau Wood-B, gellid datblygu lleoliad manwerthu amgen trwy ddatblygu caban pren wedi ei adeiladu o ddeunyddiau lleol gan ddefnyddio sgiliau lleol. Byddai hyn yn ategu'r caban mawr a adeiladwyd ganddynt ar gyfer B-Leaf a gellid ei deilwra ar gyfer anghenion y Parc, gan gynnwys lleoliad manwerthu ond hefyd yn cynnwys ystafelloedd/ lleoedd ar gyfer dysgu, ystafelloedd cyfarfod, ac ati, sy'n adlewyrchu'r Parc a'i werthoedd. Ceir potensial hefyd i gynnwys deciau awyr agored o gwmpas yr adeilad i fanteisio ar olygfeydd ar draws Afon Garw isod.

**Opsiwn 5**

Strwythur o fath ciosg bach ar gyfer byrbrydau, lluniaeth ysgafn a diodydd.

Ceir cyfleoedd i ddatblygu lleoedd manwerthu o fath ciosg bach y gellid eu lleoli mewn nifer o safleoedd yn y Parc. Gallai hyn fod ar gyfer anrhegion, crefftiau neu fyrbrydau a diodydd, neu gymysgedd o'r cwbl.

Mae safleoedd posibl yn cynnwys:  
- Mannau chwarae/  
gweithgareddau/picnic,  
- Ardal B-Leaf

Ceir unedau ciosg o bob lliw a llun a cheir cyfle ychwanegol i Wood-B adeiladu un yn y Parc.

Mae lleoliad B-Leaf yn y Parc, ynghyd â'r cynnydd disgwylidig i fasnach, yn golygu y bydd cyfle hefyd i gynnig diodydd a byrbrydau ysgafn yno. Gellid tyfu hwn yn gynnig mwy sylweddol wrth i

**SEFYLLFA BRESENNOL**

Ceir man tarmac wrth ymyl y maes parcio sef lleoliad presennol biniau sbwriel sy'n ddigon mawr ar gyfer datblygiad newydd.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer lluniaeth ysgafn a byrbrydau yn y Parc er bod cynlluniau i ddatblygu ciosg byrbrydau yn y man chwarae i blant a gosod peiriannau gwerthu yn B-Leaf i weld pa mor dda mae diodydd yn gwerthu yno. Deallir mai Wood-B fydd yn adeiladu'r strwythur sydd ei angen yn y man chwarae.

Enghreifftiau o unedau ciosg:

**YSTYRIAETHAU**

- Mae hwn yn ymgymeriad mwy sylweddol a fydd yn gofyn am waith cynllunio a buddsoddiad sylweddol. Fodd bynnag, mae'n cynnig y cyfle i ddarparu mwy na manwerthu yn unig, fel lleoliad o'r radd flaenaf ar gyfer cyfarfodydd, dysgu a digwyddiadau dan do, er enghraifft.  
- Byddai'n achosi mwy o darfu yn ystod y cyfnod adeiladu a gallai effeithio ar gynllun lleoedd parcio yn y pen hwnnw o'r maes parcio.  
- Bydd yn gofyn am reolaeth prosiect gadarn ac adnoddau.  
- Dylid cynnal asesiad i ganfod yr effaith ar weddill y Parc

- Costau datblygu.  
- Sicrhau bod lleoliad y strwythur yn hygyrch ac yn ddiogel trwy asesiadau risg cadarn.  
- Diogelwch a thrin deunyddiau darfodus.  
- Pŵer a chyfleustodau, gan gynnwys dŵr a gwastraff.  
- Bydd angen gwella arwyddion ar gyfer B-Leaf yn y Parc.  
- Mae angen rheoli'r rhyngweithio rhwng y cyhoedd a'r hyfforddeion yn gadarn.

wybodaeth a phrofiad gael ei gaffael ac i fasnach gynyddu.

**OPSIWN**  
**Opsiwn 6**

**CYNNIG**

Datblygu cynnig manwerthu yn B-Leaf.

Ceir cyfle i ddatblygu lle manwerthu yn B-Leaf a datblygwyd siop fach yn B-Leaf i ddechrau archwilio manwerthu a'i botensial i B-Leaf. Bydd hwn yn gam da tuag at ddatblygu sgiliau manwerthu ac ennill profiad gwerthfawr o fanwerthu. Crëwyd cysylltiadau â chyflenwyr o'r rhanbarth ehangach ac mae agoriad wedi ei drefnu ar gyfer diwedd y gwanwyn.

**SEFYLLFA BRESENNOL**

Mae cynnig manwerthu yn cael ei dreialu yn B-Leaf a disgwylir iddo gael ei lansio ddiwedd y gwanwyn 2017.

**YSTYRIAETHAU**

- Bydd angen gwella arwyddion ar gyfer B-Leaf yn y Parc.
- Bydd angen systemau talu dibynadwy.
- Bydd angen i bolisïau trin arian parod fod ar waith ac yn weithredol.
- Bydd cyflwyniad y siop a'r tu mewn yn bwysig i ysgogi cwsmeriaid i ddod yn ôl.
- Mae'n rhaid ystyried y rhyngweithio rhwng y cyhoedd a'r hyfforddeion.
- Bydd angen datblygu rhwydwaith o gynhyrchwyr a chyflenwyr lleol dibynadwy da.
- Bydd marchnata yn allweddol i sicrhau bod cyfanswm gofynnol y fasnach yn ddigonol.

## 4 Aseidiadau Effaith

Rhoddir aseidiad effaith ar gyfer pob opsiwn ar y sail bod yr holl waith datblygu wedi ei gwblhau a'i fod yn weithredol. Cydnabyddir ei bod yn debygol y bydd tarfu sylweddol yn ystod unrhyw waith datblygu a dylai'r contractwyr a'r gweithwyr proffesiynol perthnasol sy'n cymryd rhan yn y broses honno roi gwybod i bobl am hynny.

Yr hyn a fesurir yma yw'r elfennau allweddol a ystyrir ar gyfer disgwyliadau gweithredu'r opsiynau a ddarparwyd o ddydd i ddydd.

Dyma nhw:

- Traffig
- Dadleoli
- Staff a hyfforddeion seiliedig ar waith
- Gwirfoddolwyr
- Ymwelwyr
- Rhanddeiliaid ehangach

### 4.1 Traffig

Mae gan Barc Bryngarw fynedfa ffordd sengl i'r de o'r safle ar ymyl ogleddol pentref Brynmenyn. Ceir pont un lôn dros Afon Garw sydd wedi ei lleoli ar gornel lletchwith wrth i Ffordd Bryn ddod i mewn i'r pentref. Gellir cyrraedd mynedfa'r Parc oddi ar Pleasant Avenue trwy Ffordd Bryn neu ffordd Pen-y-bryn. Mae coetsys yn debygol o gyrraedd ar hyd Ffordd Bryn o Dondu gan fod y llwybr hwn yn osgoi'r bont letchwith dros Afon Garw.

Ceir problemau traffig yn y pentref ar adegau prysur. Efallai y bydd lleoedd parcio ychwanegol ar gael yn un o gaeau'r Parc ond mae hyn yn ddibynnol iawn ar y tywydd.

Deallir bod ymwybyddiaeth o'r problemau traffig a mynediad at y safle a'u bod yn rhan o strategaeth barhaus.

### 4.2 Dadleoli

Disgwylir y bydd dadleoliad busnesau lleol eraill yn isel iawn. Mae'r ffynhonnell werthu ychwanegol i gynhyrchwyr lleol yn debygol o arwain at effaith gadarnhaol a gall hyn gynnig cyfleoedd ychwanegol iddynt, a gallai arwain at gynnydd i fudd economaidd.

### 4.3 Staff a hyfforddeion

Disgwylir y bydd gweithgarwch manwerthu yn y Parc yn cael effaith gadarnhaol ar staff a hyfforddeion. Bydd y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a'r diddordeb ychwanegol yn creu awyrgylch mwy bywiog er y bydd angen rheoli ymgysylltiad y cyhoedd â'r hyfforddeion yn ofalus. Bydd defnyddio ymweliadau diweddar Awen â Beacons Creative a'r cysylltiad y mae hyn wedi ei greu yn cynnig enghraifft ymarferol i'r Parc, lle mai gweithredu mewn sefyllfaoedd sy'n wynebu cwsmeriaid yn arferol ac wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol iawn i hyfforddeion.

- Hyfforddeion

Yr hyfforddeion yw sail y gwasanaethau cymdeithasol y mae B-Leaf a Wood-B yn eu darparu. Ceir 14 o hyfforddeion y dydd yn Wood-B, er mai 9 sydd yno yn fwy arferol, sy'n nifer haws i'w cynorthwyo. Ceir 29 o hyfforddeion yn B-Leaf ac mae uchafswm o 25 yn bresennol ar unrhyw ddiwrnod penodol. Mae'r hyfforddeion yn mynd ar leoliadau ar hyn o bryd, ond disgwylir i hyn newid wrth i Daliadau Uniongyrchol fod yn norm, er nad yw'n hysbys eto pa effaith y bydd hyn yn ei chael ar niferoedd.

Ceir hyfforddiant ond nid yw hyn yn arwain yn uniongyrchol at swydd. Gallai cynnig cyflogaeth helpu i ymgysylltu hyfforddeion a denu pobl newydd i'r gwasanaeth. Gall gwasanaethau sy'n darparu llwybrau uniongyrchol i gyflogaeth fod yn boblogaidd os cânt eu rheoli a'u gweithredu'n dda.

- **Staff**

Mae gan Awen dîm pwrpasol ac ymroddedig o gyflogaion. Er mwyn cynorthwyo â'r diwylliant newidiol, darparwyd gweithdy ar gyfer B-Leaf a Wood-B i roi sylw i gyflymder y newid a chanfod sylwadau, pryderon a safbwyntiau'r gweithlu.

Ceir consensws cyffredinol bod newidiadau yn rhan o fod yn annibynnol ar yr Awdurdod Lleol. Er bod y cyflogaion yn pryderu am gyflymder y newid, roeddent yn deall yr angen am hyn. Roeddent yn awyddus i sicrhau bod y Tîm Rheoli yn ymwybodol bod y gweithlu'n aml yn teimlo nad ydynt yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, neu nad oeddent yn cael gwybod am y rhesymeg sy'n sail i rai o'r newidiadau sy'n cael eu gwneud.

Gofynnwyd i'r cyflogaion bennu amcanion y gellir eu cyflawni yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Gellid cymryd camau ar sail y rhain wedyn a gwneud gwaith dilynol arnynt yn rheolaidd.

#### **4.4 Gwirfoddolwyr**

Mae gan y Parc wirfoddolwyr sy'n cwrdd yn rheolaidd ar un dydd Sadwrn y mis. Maent yn cwrdd er mwyn helpu i adfer a chynnal y Parc ac maent yn lleol i'r ardal yn bennaf. Mae'n bosibl y gellid ymestyn rhaglen wirfoddoli i rannau eraill o'r Parc a'i fusnes er efallai y bydd angen ystyried hyn eto.

Disgwylir y bydd yr effaith ar wirfoddolwyr yn fach oni bai eu bod yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau manwerthu. Mae manwerthu yn cynnig y cyfle i sefydlu rhaglen wirfoddoli lle gellir addysgu sgiliau manwerthu i wirfoddolwyr. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar unigolion a'r potensial i'w cyflogi yn y dyfodol.

#### **4.5 Ymwelwyr**

Dangosodd yr ymgynghoriad ymwelwyr fod cefnogaeth fawr ymhlith y cyhoedd i gynnig manwerthu ym Mharc Bryngarw. Mae hyn yn dangos y bydd profiad manwerthu estynedig yn y Parc yn helpu i gynyddu ymgysylltiad ag ymwelwyr a chynyddu'r potensial i ymwelwyr ddychwelyd a rhannu'r profiad ar lafar ac ar gyfryngau cymdeithasol.

#### **4.6 Rhanddeiliaid eraill**

Bydd rhanddeiliaid eraill, fel 5 Star a Chaffi Cedars, yn elwa ar gynnydd yn nifer yr ymwelwyr. I Gaffi Cedars yn benodol, gallai'r gallu i brynu bwyd a diod mewn mannau eraill yn y Parc effeithio ar eu busnes. Fodd bynnag, mae Awen yn ymwybodol o hyn ac mae unrhyw gynnig sy'n gysylltiedig â bwyd yn debygol o fod trwy gyfleuster o fath ciosg ac felly nid yn gystadleuydd uniongyrchol.

Gan fod 5 Star yn rheoli Tŷ Bryngarw fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau, prin yw'r effaith a ddisgwylir arnynt yn sgil cynnig manwerthu yn y Parc.



## Dadansoddiad o Effaith

-5 = effaith negyddol iawn

0 = Dim effaith

+5 = effaith gadarnhaol iawn

## Dadansoddiad o Effaith Opsiynau Manwerthu Parc Bryngarw

	Traffig	Dadleoli	Staff a Hyfforddeion	Gwirfoddolwyr	Ymwelwyr	Rhanddeiliaid Eraill
Opsiwn 1	0	0	1	0	3	1
Opsiwn 2	-1	2	-2	4	4	2
Opsiwn 3	-2	2	2	4	3	3
Opsiwn 4	-2	3	3	4	4	4
Opsiwn 5	0	0	2	2	3	0
Opsiwn 6	-1	2	3	2	3	0

## 5 Cynllunio Gweithrediad

Mae'r opsiynau a nodir uchod ar waith neu wrthi'n cael eu rhoi ar waith a'u cynllunio gan Awen. Fel y cyfryw, maent eisoes yn cyflawni cynlluniau a luniwyd yn fewnol sydd wedi golygu nad oes angen cynllunio gweithrediad ar gyfer yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, rydym wedi nodi ein methodoleg y gellir ei haddasu ar gyfer pob opsiwn a'i defnyddio er mwyn helpu i benderfynu ar raglen ddarparu.

### 5.1 Ffrydiau gwaith

Mae gan bob opsiwn manwerthu uchod gyfres benodol o ffrydiau gwaith sy'n llunio'r broses weithredu; cyfathrebu, rheoli, busnes ac elfennau statig. Rydym yn rhannu'r rhain yn elfennau allweddol wedyn y bydd y cynllun gweithrediad yn deillio ohonynt.

**Cyfathrebu:** Cymuned  
Hyfforddeion  
Gofalwyr  
Staff  
Uwch Reolwyr  
Partneriaid

**Rheoli:** Nodau ac amcanion  
Strwythur rheoli/gweithredol  
Staffio  
Polisiau a gweithdrefnau

**Busnes:** Rheoli newid diwylliant  
Pennu amcanion masnachol  
Cwmpasu a graddio  
Staffio  
Cyfrifo gofynion ariannu  
Cyfrifo rhagolygon ariannol  
Rheoli risg

**Elfennau statig:** Pensiynau  
Yswiriant  
Materion cyfreithiol  
Cytundebau gwasanaeth  
Contractau cyflenwyr  
Rhenti/lesoedd

### Cyfathrebu

Cyfathrebu yw'r polisi cyffredin a fydd yn llywodraethu sut y mae'r prosiect yn symud ymlaen ac yn cael ei reoli. Mae'n bwysig deall llinellau cyfathrebu allweddol a swyddogaethau'r rheini yn y Tîm Prosiect, eu cyfrifoldebau a'u lle yn y protocolau a ddatblygir.

Pwyntiau i'w hystyried:

- Pwy yw Arweinydd y Prosiect?
- Pwy fydd yn rheoli'r prosiect o ddydd i ddydd?
- Pwy yw cysylltiadau allweddol y prosiect?
- Pa wybodaeth fydd ei hangen?
- Pwy yw'r personél adrannol allweddol a beth yw eu llinellau cyfathrebu?

- Sut y bydd gwahanol randdeiliaid, hyfforddeion a staff yn cael eu hysbysu a'u hymgysylltu yn ystod y broses?
- Sut y bydd gwybodaeth yn cael ei rheoli a beth yw'r protocolau ar gyfer ymgysylltu â'r wasg a'r cyhoedd?

### **Rheoli**

Bydd angen i nodau ac amcanion pob opsiwn fod yn eglur ac yn ddealladwy i'r rheini sy'n ymwneud â'u datblygu a'u tyfu. Mae'n rhaid i'r strwythur gweithredol gyfateb i'r model busnes ac mae'n bwysig ystyried sut y bydd y cwmni yn cynhyrchu incwm a/neu'n darparu'r gwasanaeth y bydd yn ei ddarparu ac yn masnachu ynddo dros amser. Bydd hefyd yn bwysig caniatáu lle i dyfu ac i sicrhau bod yr opsiwn sy'n cael ei ddarparu yn barod ar gyfer y dyfodol.

Pwyntiau i'w hystyried:

- Gweledigaeth 5-10 mlynedd – ble ydych chi'n gweld y cwmni yn y dyfodol
- Nodau elusennol neu gymdeithasol – y gwahaniaeth y bydd y cwmni yn ei wneud yn y gymuned
  - Y gwasanaeth a ddarperir
  - Cynhyrchion
  - Maes o fudd
  - Cymuned o fudd
- A ydych chi eisiau i randdeiliaid, staff a defnyddwyr gwasanaeth gymryd rhan yng nghyfeiriad datblygiad a thwf, ac os felly, faint?
- Penderfynu ar y strwythur staffio mwyaf priodol
- Datblygu'r polisiau a'r gweithdrefnau priodol

### **Modelu a Chynllunio Busnes**

Bydd y model busnes a ddefnyddir yn dibynnu ar amrywiaeth eang o ffactorau. Mae'n bwysig sefydlu'r model cywir yn seiliedig ar y math o opsiwn sy'n cael ei gynllunio a sut y mae hwn yn cyd-fynd â'r uchelgais cyffredinol ar gyfer y Parc ac Awen.

Pwyntiau i'w hystyried:

- A yw'r amcanion a'r nodau yn cael eu bodloni a'u cyrraedd trwy'r model busnes?
- Pa adnoddau fydd eu hangen ar yr opsiwn?
- Beth fydd y costau gweithredu?
- Pa mor fawr yw'r farchnad ar gyfer yr hyn sy'n cael ei gynnig?
- A yw'r risgiau allweddol wedi eu nodi?
- Sut y bydd y busnes yn cael ei reoli a'i staffio?
- Pa ffynonellau o gyllid sydd wedi eu nodi?

### **Elfennau Statig**

Bydd angen nodi elfennau statig pob opsiwn a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau cyn gynted â phosibl. Gall elfennau fel pensiynau, Cymorth Gwladwriaethol (os defnyddir grantiau a ariennir gan y cyhoedd) a materion cyfreithiol gymryd amser maith i'w datrys, gallant fod yn ddrud iawn a gallant oedi'r broses gyfan.

Pwyntiau i'w hystyried:

- A oes goblygiadau i gyllid y pensiwn sy'n cael ei gynnig?
- A oes yswiriant digonol?
- A oes unrhyw faterion cyfreithiol wedi eu nodi?
- A yw'r opsiwn a ddewiswyd yn effeithio ar unrhyw gytundebau lefel gwasanaeth presennol?

- A yw'r asedau wedi eu rhestru, eu costio a'u hasesu yn addas i'r diben?
- A yw Cymorth Gwladwriaethol neu GBER (ar gyfer cyllid grant yr UE/LIC) yn berthnasol?
- A yw unrhyw gontractau/trefniadau cyflenwyr yn diwallu anghenion yr opsiwn/opsiynau a ddewiswyd?
- A yw unrhyw gontractau gwasanaeth arfaethedig newydd wedi eu costio'n briodol ac yn broffidiol?

## 6 Canfyddiadau ac Argymhellion

### 6.1 Crynodeb o Ganfyddiadau

Mae'n amlwg o gynnal yr astudiaeth hon bod Parc Bryngarw yn cynrychioli cyfle masnachol a chymdeithasol sylweddol. Mae'r Parc ei hun wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, mae'n hygyrch ac mae'n groesawgar. Mae'n darparu ar gyfer amrywiaeth eang o bobl ac yn haeddu ei enw da yn un o brif atyniadau ymwelwyr Pen-y-bont ar Ogwr.

Bu'n rhaid mabwysiadu dull ymchwilio ac archwilio'r amrywiaeth o bosibiliadau sydd ar gael i Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen a REACH er mwyn bodloni amcanion gofynnol yr adroddiad hwn. Bydd datblygu cynnig manwerthu yn y Parc yn gofyn am rywfaint o gynllunio manwl, yn enwedig wrth ystyried yr opsiynau sy'n cynnwys strwythur newydd neu ad-drefnu adeiladau. Fodd bynnag, mae mesurau y gellir eu cymryd, neu sy'n cael eu cynllunio eisoes, mewn rhannau o'r Parc sy'n llai cymhleth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu'r Ganolfan Ymwelwyr yn lleoliad manwerthu/ystafell ddosbarth a rennir sydd eisoes ar y gweill.
- Mae datblygiad ciosg ar gyfer lluniaeth ysgafn a byrbrydau yn cael ei gynllunio ar hyn o bryd.
- Mae datblygiad y siop yn B-Leaf bron wedi ei gwblhau.
- Ymchwiliadau i adleoli Wood-B i'r Parc.
- Gwella arwyddion yn y Parc.
- Astudio safleoedd cystadleuwyr tebyg eraill i gymharu prisiau, lleoliad, cydnawsedd â'r brand, apêl, ac ati.

Safbwynt cyffredinol yr adroddiad hwn yw bod amryw o gyfleoedd i ychwanegu gwerth at y busnes a datblygu'r Parc.

Derbynnir bod hyn yn debygol o symud ymlaen ar gyflymder pwylllog er mwyn datblygu'r hyfforddeion a sicrhau y gall y staff addasu i leoliad newydd, mwy masnachol. Bu rhywfaint o symud tuag at gyflawni'r nodau hyn eisoes wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Hefyd, mae'r ymgynghoriad ymwelwyr wedi dangos bod awydd sylweddol ymhlith y cyhoedd am leoliad manwerthu yn y Parc, a dymuniad i weld cynhyrchion lleol yn flaenllaw mewn unrhyw gynnydd.

Dyma rai pethau i'w hystyried wrth ystyried datblygiad y Parc:

- Datblygu ymgyrchoedd marchnata i fanteisio ar y teimladau cadarnhaol tuag at y Parc
- Creu rhwydwaith cyflenwyr / cynhyrchwyr cryfach a datblygu dulliau ar-lein i ymgysylltu â nhw.
- Cyfathrebu aml gyda'r staff i dawelu ofnau wrth i'r Parc ddatblygu
- Ymchwilio i'r potensial ar gyfer pwyntiau mynediad eraill i'r Parc.
- Archwilio modelau cwmni/menter gymdeithasol eraill a chreu cysylltiadau lle ceir buddiannau, nodau ac amcanion cyffredin.
- Ymestyn cyrhaeddiad y Parc a datblygu cysylltiadau â cholegau, byrddau iechyd ac asiantaethau mewn siroedd eraill.
- Cynyddu amlygrwydd ar-lein / ar gyfryngau cymdeithasol.

## 6.2 Argymhellion

Mae'r argymhellion canlynol wedi'u seilio ar yr wybodaeth a gasglwyd ar gyfer yr adroddiad hwn ac yn ymwneud â'r opsiynau manwerthu yn yr adroddiad hwn ac nid grŵp ehangach Awen. Dylid nodi y cyflwynir yr argymhellion hyn i ysgogi rhagor o drafodaeth a deialog ac ni ddylid ystyried eu bod yn derfynol nac yn gyfarwyddol.

Cyflwynir yr opsiynau yr ydym wedi eu hamlinellu ar sail yr ymchwil a'r arsylwadau a wnaed wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn. Yn ystod y cyfnod hwn, mae llawer o'r opsiynau wedi dod yn rhan o'r blaengynllunio ar gyfer y Parc ac mae'r rhai sy'n cynrychioli ateb cost isel yn cael eu cyflawni yn gyntaf.

Deallir y bydd opsiynau sy'n gofyn am fwy o fuddsoddiad a chynllunio yn cael eu hymchwilio dros amser a bod yr argymhellion hyn yn ategu'r broses honno.

Argymhellir:

1. Y dylid gwireddu'r posibilrwydd o giosg yn barod ar gyfer gwyliau'r haf sydd ar fin dod. Mae'n gyfleuster sy'n gyffredin mewn atyniadau awyr agored a bydd yn gwella profiad yr ymwelydd. Deallir y bydd Wood-B yn adeiladu'r strwythur.
2. Mae angen rhoi sylw i'r diffyg arwyddion digonol ym mhob rhan o Barc Bryngarw. Mae angen gallu adnabod y Ganolfan Ymwelwyr ac mae angen cyfeiriadau gwell ar bobl drwy'r Parc.
3. Nid yw'r 'man gwerthu' yn y Ganolfan Ymwelwyr yn groesawgar iawn nac yn amlwg i ymwelwyr. Byddai ychydig o silffoedd syml a diffinio'r lleoliad 'manwerthu' yn helpu i werthu mwy ac rydym ni ar ddeall bod hyn yn digwydd, a bod rhywfaint o arddangosfeydd manwerthu yn cael eu cynllunio.
4. Mae'r opsiynau a ddarperir yn nodi nifer o ddewisiadau y bydd angen ymchwilio iddynt ymhellach. Bydd angen buddsoddiad sylweddol ar gyfer rhai o'r rhain ac felly bydd angen achos busnes manwl ar gyfer pob un o'r rhain fel sail i ymchwiliad mwy trylwyr.
5. Dylid gwneud gwaith dilynol ar y tasgau a ddeilliodd o'r gweithdy diwylliant i gynnal momentwm y newid ar gyfer y dyfodol, i gydnabod ymdrechion y staff ac i ymgysylltu â nhw trwy eu cynnwys a rhoi gwybod iddynt am benderfyniadau strategol allweddol pan fo'n briodol.
6. Dylid archwilio cynhyrchion newydd yn rheolaidd a sefydlu rhwydwaith o gynhyrchwyr i annog cynhyrchu a chynnig dewis ehangach o gynhyrchion a gwasanaethau.
7. Dylid treialu a monitro gwerthu diodydd meddal o B-Leaf i fesur ymateb ymwelwyr i ffynonellau lluniaeth amgen.
8. Gallai'r potensial i ddatblygu safle B-Leaf gan ddefnyddio cynlluniau Wood-B a'u haddasu fod yn ddefnydd effeithlon o adnoddau a ddefnyddiwyd eisoes a dylid ymchwilio i hynny ymhellach. Rydym ar ddeall bod hyn yn cael ei ystyried eisoes.
9. Gellid datblygu'r adfail i'r gogledd o safle B-Leaf yn ardd heddychlon a bod yn 'fffenestr siop' awyr agored ar gyfer planhigion B-Leaf a dodrefn awyr agored Wood-B hefyd.

10. Efallai mai datblygu B-Leaf i fod yn fwy o ganolfan arddio sy'n cynrychioli potensial mwyaf y Parc o ran twf ac enillion. O ystyried y seilwaith presennol, gallai'r defnydd o fuddsoddiad yma arwain at fwy o incwm a mwy o ymwelwyr yn y tymor canolig i hir.

Bydd agor y siop newydd yn ystod y gwanwyn yn helpu B-Leaf ac Awen i ddysgu sgiliau gwerthfawr ac yn cynorthwyo datblygiad model manwerthu hirdymor ar gyfer y safle.

11. Mae cynllun marchnata yn cael ei ddatblygu ar gyfer grŵp Awen. Bydd angen i hwn nodi potensial y Parc a sicrhau bod ei lwybrau i'r farchnad yn cael eu cyflwyno mewn ffordd eglur a rhesymegol y gellir eu rhannu â hyfforddeion, staff a rhanddeiliaid fel sy'n briodol.